*These notes refer to the Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (c.3)*

# DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016

---

## EXPLANATORY NOTES

### RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Chwefror.2016 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth.2016. Fe'u lluniwyd gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 1 – Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

3. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n darparu ar gyfer proses ailadroddol newydd lle bydd Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff cyhoeddus eraill yn cyfrannu at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

4. Mae'r Rhan hon yn diffinio adnoddau naturiol, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

5. Mae Rhan 1 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac CNC er mwyn cynorthwyo i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ac mae'n ofynnol i CNC lunio adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a datganiadau ardal. Mae'r Rhan hon yn pennu'r broses a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r dogfennau hyn ac yn rhoi'r swyddogaeth i gyrff cyhoeddus (a ddiffinnir yn y Ddeddf) o ddarparu cymorth a/neu wybodaeth y mae CNC yn gofyn amdani er mwyn cynhyrchu'r dogfennau hyn. Mae'r Rhan hon hefyd yn rhoi'r swyddogaeth o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r swyddogaeth o weithredu datganiad ardal i CNC.

6. Mae'r Rhan hon yn rhoi erthygl 4 newydd yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, sy'n rhoi diben cyffredinol newydd i CNC o ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r Rhan hon hefyd yn disodli swyddogaethau CNC mewn perthynas ag ymrwymo i gytundebau rheoli yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r Rhan hon hefyd yn disodli swyddogaethau CNC yn Neddf 1968 mewn perthynas â chynlluniau arbrofol. Mae Rhan 1 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru, yn dilyn cais gan CNC, wneud rheoliadau i ganiatáu atal dros dro ofynion deddfwriaethol, i raddau cyfyngedig, er mwyn hwyluso cynllun arbrofol sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

7. Mae Rhan 1 yn rhoi adran newydd yn lle adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac yn rhoi adran newydd yn lle adran 42 o'r Ddeddf

honno mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i baratoi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hyn, wrth arfer eu swyddogaethau yn briodol, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

### *Adran 1 – Diben*

8. Mae'r adran hon yn egluro mai diben y Rhan hon yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

### *Adran 2 – Adnoddau naturiol*

9. Mae adran 2 yn diffinio adnoddau naturiol at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf.

10. Mae'r diffiniad yn cwmpasu'r holl organeddau byw (biotig) ac eithrio pobl, a'r rhannau a'r deunyddiau anfyw (anfiotig) sy'n ffurfio'r amgylchedd naturiol.

11. Nid yw'r diffiniad wedi ei gyfyngu i adnoddau naturiol daearol; mae hefyd yn cynnwys adnoddau naturiol arfordirol a morol.

12. Mae'r diffiniad yn rhestru enghreifftiau o rannau o'r amgylchedd naturiol ac mae'n cynnwys, er enghraifft, adnoddau biolegol a daearegol, cyfryngau amgylcheddol (aer, d#r a phridd) yn ogystal ag adnoddau llif (megis y llanw, y gwynt a'r haul).

### *Adran 3 –Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol*

13. Mae'r adran hon yn diffinio "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae adran 4 yn disgrifio sut y dylid cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, drwy ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy.

14. Mae is-adran (1)(a) yn darparu bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ymwneud â defnyddio (neu beidio â defnyddio) adnoddau naturiol (fel y'u diffinnir yn adran 2) i hyrwyddo amcan is-adran (2).

15. Mae is-adran (1)(b) ac (c) yn egluro bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol hefyd yn ymwneud â gweithredu, neu beidio â gweithredu, mewn ffordd sy'n hyrwyddo neu'n llesteirio cyflawni'r amcan yn is-adran (2).

16. Mae is-adran (2) yn darparu mai amcan rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau, a'u manteision. Mae ecosystem gydnerth yn iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu ymdopi ag aflonyddwch a darparu manteision dros y tymor hir. Disgrifir prif nodweddion ecosystem gydnerth yn adran 4(i).

17. Mae cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt, megis darparu bwyd a ffeibr, yn helpu i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfredol, a rhai'r dyfodol, ac yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

18. Y "manteision", neu'r gwasanaethau, a ddarperir gan ecosystemau yw'r manteision pendant ac annirnad a geir o ecosystemau ac adnoddau naturiol, sy'n cynnwys:

- Gwasanaethau cefnogi, megis cylchdroi maetholion, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Dyma'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu pob gwasanaeth arall;
- Gwasanaethau darparu nwyddau, megis bwyd, ffeibr, tanwydd a d#r. Dyma'r cynhyrchion a geir o ecosystemau;
- Gwasanaethau rheoli, megis rheoli'r hinsawdd, puro d#r ac amddiffyn rhag llifogydd. Dyma'r manteision a geir o reoli prosesau ecosystemau; a

- Gwasanaethau diwylliannol, megis addysg, hamdden, a manteision esthetaidd. Dyma'r manteision y mae pobl yn eu cael o ecosystemau, nad ydynt yn rhai materol.

19. Enghraifft o reoli'r defnydd o adnoddau, yn is-adran (1), yw rheoli faint o dd#r sy'n cael ei dynnu o afon, pa mor aml y gwneir hynny, ac o ba leoliad. Er mwyn bodloni'r amcan yn is-adran (2) ni chaniateir tynnu d#r ar raddfa gyflymach nag y gellir ei ailgyflenwi nac mewn ffordd a fydd yn cael effaith andwyol ar yr ecosystem ehangach a'r manteision eraill i'r ecosystem y mae'r afon yn eu darparu. Asesir i ba raddau y mae d#r ar gael nid yn unig ar sail yr effaith yn y tymor byr, ond hefyd yn y tymor hir, ac ar sail gallu'r ecosystem i ddarparu manteision i genedlaethau'r dyfodol.

20. Un enghraifft lle gallai is-adrannau (1)(b) ac (c) fodloni'r amcan yn is-adran (2) fyddai drwy reoli effaith gweithgareddau cynhyrchu ar iechyd ecosystemau a'r ffordd y maent yn gweithredu. Gall defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, er enghraifft, helpu i leihau'r gyfradd y defnyddir adnoddau naturiol mewn gweithgareddau cynhyrchu, ond gallai'r gweithgaredd hwnnw hefyd gynnwys allyrru llygryddion i'r amgylchedd dyfrol neu i'r aer, a thrwy hynny gael effaith negyddol ar iechyd ein hecosystemau. Mae rheoli cynaliadwy yn cynnwys gweithredu (neu beidio â gweithredu) i leihau effeithiau negyddol posibl yn sgil gweithgareddau, er mwyn cynnal a gwella ecosystemau cydnerth.

### *Adran 4 – Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol*

21. Mae adran 4 yn sefydlu'r egwyddorion sy'n pennu sut yr eir ati i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r egwyddorion yn ategu ei gilydd ac yn cysylltu â'i gilydd, ac nid ydynt wedi'u rhestru yn ôl trefn blaenoriaeth.

22. Mae paragraff (a) yn darparu ar gyfer addasu i amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth newydd a cheisio lleihau unrhyw ansicrwydd, gan ganiatáu i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ragweld newid a darparu ar ei gyfer.

23. Mae'n ofynnol ystyried y raddfa ofodol yn ôl paragraff (b). Mae hyn yn cynnwys ystyried y lefel ofodol leol, ranbarthol neu genedlaethol briodol er mwyn ymateb i faterion neu ddarparu cyfleoedd. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau rhwng d#r daear, d#r wyneb a glawiad o fewn dalgylch afon yn golygu y gall effeithiau ar unrhyw un ohonynt effeithio ar brosesau hydrolegol yn y dalgylch a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn, fel darparu d#r glân.

24. Mae'n ofynnol gweithio â sectorau priodol o gymdeithas yn ôl paragraffau (c), (d) ac (e). Dylid gwneud penderfyniadau gan ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid perthnasol a chan wahanol sectorau o gymdeithas, gan gynnwys, er enghraifft, gymunedau lleol a'r cyhoedd. Nid dim ond cyfeiriad at dystiolaeth wyddonol yw'r term "tystiolaeth" yn y cyd-destun hwn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â data empirig a thystiolaeth wyddonol.

25. Yn ôl paragraff (f) mae'n ofynnol nodi ac ystyried y manteision a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol a'n ecosystemau, yn ogystal â gwerth cynhenid yr ecosystemau a'r adnoddau hynny, sef gwerth adnoddau naturiol ac ecosystemau er eu mwyn eu hunain. Dylid ystyried pob mantais (neu wasanaeth) o ran darparu nwyddau, cefnogi, rheoli a diwylliant, fel y bo'n briodol. Rhoddir gwybodaeth am fanteision ym mharagraff 18. Er enghraifft, wrth reoli coedwigoedd, yn ogystal ag ystyried darparu coed, ystyrir gwasanaethau eraill fel storio carbon, darparu cynefinoedd neu weithgareddau hamdden. Mae angen rheoli coetiroedd dros dymor hir ac mae hynny'n golygu dewis rhywogaethau a lleoliad plannu coed yn ofalus fel y gellir manteisio i'r eithaf ar amrywiaeth o wasanaethau a manteision ecosystemau dros genhedlaeth neu ragor.

26. Mae'n ofynnol ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn ôl paragraff (g), gan gynnwys amseroedd oedi ac adborth i ecosystemau ymateb i ymyriadau. Er enghraifft, byddai'n rhaid i gynigion i gyflwyno gwlyptir newydd er

mwyn helpu i leihau llygredd gwasgaredig o dir fferm ymgorffori'r amser a gymer i'r gwlyptir ddatblygu'r amodau bioffisegol angenrheidiol i reoli'r llygredd, ynghyd ag amrywioldeb llif y d#r dros amser, wrth ddylunio a monitro'r gwlyptiroedd.

27. Mae paragraff (h) yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau a all atal niwed arwyddocaol i ecosystemau. Mae hyn yn cynnig dull ataliol o fewn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

28. Mae'n ofynnol ystyried agweddau penodol ar gydnerthedd ecosystem yn ôl paragraff (i). Nid yw'r rhestr hon yn ddiffiniad cyflawn, ond mae'n nodi, at ddiben y Rhan hon, yr agweddau allweddol ar ecosystemau cydnerth.

### *Adran 5 – Diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru*

29. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y "Gorchymyn Sefydlu") fel mai rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fydd diben creiddiol CNC).

30. Roedd y Gorchymyn Sefydlu yn sefydlu CNC fel y corff amgylcheddol a chadwriaethol yng Nghymru ac yn nodi ei swyddogaethau cyffredinol. Roedd erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu yn pennu diben cyffredinol CNC, sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, a hynny er lles pobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

31. Mae erthygl 4(1)(a), fel y'i disodlir gan adran 5 o'r Ddeddf hon, bellach yn rhoi dyletswydd ar CNC i ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Mae i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yr ystyr a roddir yn adran 3 o'r Ddeddf.

32. Mae erthygl 4(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, hefyd yn cymhwyso'r egwyddorion rheoli cynaliadwy a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf. Nid yw'r dyletswyddau yn erthygl 4 ond yn gymwys i'r graddau y bônt yn gyson ag arfer swyddogaethau CNC yn briodol. Nid ydynt, felly, yn gwrthdaro ag unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf hon, nac mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, sy'n rhoi pwerau neu ddyletswyddau i CNC, nac yn eu gwrth-wneud.

33. Un enghraifft o gymhwyso'r egwyddorion i swyddogaeth fyddai wrth baratoi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (sy'n ofyniad o dan adran 8 o'r Ddeddf). Wrth baratoi'r adroddiad rhaid i CNC gymhwyso'r egwyddorion yn adran 4, a fyddai'n cynnwys ystyried yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth berthnasol a fydd yn angenrheidiol er mwyn paratoi'r adroddiad, yn ogystal â thrafod â'r rhanddeiliaid perthnasol a allai fod ag unrhyw dystiolaeth berthnasol yn eu meddiant. Yn ogystal, byddai gofyn i CNC ystyried amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd o fewn ecosystemau ar hyn o bryd, gallu ecosystemau i ymateb i newidiadau neu alwadau cynyddol arnynt, a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau megis d#r glân, bwyd, twristiaeth a rheoli llifogydd a chlefydau.

34. Mae adran 5(4) yn diwygio'r Gorchymyn Sefydlu drwy ddiddymu erthyglau 5B a 5E. Mae erthygl 5B yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i newidiadau ecolegol gwirioneddol neu bosibl wrth gyflawni ei swyddogaethau cadwraeth natur. Bydd y gofyniad hwn bellach yn dod o dan egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel y darperir ar eu cyfer yn adran 4 o'r Ddeddf hon, felly mae erthygl 5B bellach yn ddiangen.

35. Mae erthygl 5E yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â'u llesiant economaidd. Mae'r gofynion hyn yn dod yn rhan o'r dyletswyddau a osodir ar CNC gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, felly mae erthygl 5E bellach yn ddiangen.

### *Adran 6 – Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau*

36. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn is-adran (9), i geisio cynnal a gwella amrywiaeth fiolegol (y cyfeirir ati fel bioamrywiaeth). Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus, ymgymerwr statudol, Gweinidog y Goron a deiliaid swyddi cyhoeddus eraill gymhwyso'r ddyletswydd pan fyddant yn cyflawni unrhyw swyddogaethau yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru. Nodir dau eithriad yn is-adran (3): nid yw swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi na swyddogaethau barnwrol llysoedd a thribiwnlysoedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

37. Pan fo'r ddyletswydd yn adran 6 yn gymwys, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn hytrach na'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

38. Roedd adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr roi sylw i ddiogelu bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae adran 40 wedi ei diwygio fel ei bod yn parhau i fod yn gymwys pan fo Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyflawni ei swyddogaethau, a phan fo awdurdodau cyhoeddus eraill yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Lloegr (gweler paragraff 9(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf).

39. Mae adran 6(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, wneud hynny mewn ffordd sy'n ceisio gwella bioamrywiaeth, yn hytrach na'i lleihau, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt geisio gwneud ecosystemau yn fwy cydnerth. Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth yn adran 26 er mwyn hwyluso dehongliad cyffredinol o'r term, ac mae'n ymwneud ag amrywiaeth yr holl organeddau byw ar y gwahanol lefelau lle maent yn bodoli. Er nad yw cydnerthedd yn cael ei ddiffinio yn adran 6, mae is-adran (2) yn cynnwys amryw o'i brif nodweddion.

40. Mae adran 6(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni'r rhwymedigaeth o dan is-adran (1), ystyried amrywiaeth rhwng ecosystemau ac o fewn iddynt, er enghraifft amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd, ar raddfa, cyflwr a chysylltedd ecosystemau, ac ar eu gallu i ymdopi â digwyddiadau annisgwyl megis effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ac adfer ohonynt. Ni fwriedir i'r rhestr yn is-adran (2) gynnwys pob mater y mae'n rhaid ei ystyried, gan ei bod yn bosibl na fydd rhai materion yn berthnasol i bob sefyllfa. Gweler y nodiadau ar gyfer adran 4 hefyd.

41. O dan adran 6(4) o'r Ddeddf, mae dyletswydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, adrannau'r llywodraeth a Gweinidogion y Goron i dalu sylw arbennig i Gonfensiwn Bioamrywiaeth Fiolegol 1992[1], sef cytundeb rhyngwladol sy'n ymdrin â phob agwedd ar fioamrywiaeth. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r awdurdodau cyhoeddus eraill a ddiffinnir yn is-adran (5), ond mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus eraill hynny roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 6.

42. Mae is-adran 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 6(1), roi sylw i'r rhestr o organeddau byw a mathau o gynefinoedd a gyhoeddir o dan adran 7, adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8 ac unrhyw ddatganiadau ardal a gyhoeddir o dan adran 11, sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod cyhoeddus.

43. Rhaid i awdurdod cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, gyhoeddi cynllun sy'n amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswydd

---

**1** [1] https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=4&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwiEIjiJzLAhUG6xQKHeGGBEcQFghCMAM&url=https%3A%2F%2Fwww.cbd.int%2Fdoc%2Flegal%2Fcbd-en.pdf&usg=AFQjCNHQwS4RPEu3dL617rq7mcuJhVkhfg

o dan is-adran (1). Rhaid i'r cynllun gael ei adolygu yn sgil adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (7).

44. Mae adran 6(7) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd, sy'n dangos sut y maent wedi bodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd bioamrywiaeth. Gallai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r adroddiad hwn mewn unrhyw adroddiadau eraill y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi.

45. Mae adran 6(9) yn rhestru'r awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn adran 6(1) yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys, er enghraifft, fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

46. Er mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 6 yn gymwys, nid yw hyn yn golygu ei bod yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru yn unig. Mae'n gymwys i fioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang ac yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith penderfyniadau a wneir yng Nghymru, neu weithgareddau a gynhelir yng Nghymru, i'r graddau y gallai'r rheini fod â goblygiadau i fioamrywiaeth y tu allan i Gymru. Enghraifft bosibl o hyn fyddai awdurdod cyhoeddus yng Nghymru sy'n ystyried a ddylai brynu nwyddau a wnaed o ddeunyddiau sy'n tarddu o fforest law drofannol. Byddai angen i'r awdurdod cyhoeddus ystyried goblygiadau'r penderfyniad hwnnw i brynu o ran bioamrywiaeth. Mae'r tabl isod yn nodi'r awdurdodau cyhoeddus hynny y gosodir gofynion arnynt o dan bob adran o adran 6.

| ***Adran: Dyletswydd*** | ***Llywodraeth Cymru*** | ***Gweinidogion y Goron ac Adrannau'r Llywodraeth*** | ***Awdurdodau cyhoeddus eraill*** |
|---|---|---|---|
| Adrannau (6)(1), (2) | Oes | Oes | Oes |
| Adran (6)(4)(a) | Oes | Oes | Oes |
| Adran (6)(4)(b) | Oes | Oes | Oes |
| Adran (6)(5) | Oes | Nac oes | Oes |
| Adran (6)(6) | Oes | Nac oes | Oes |
| Adran (6)(7) | Oes | Oes | Oes |
| Adran (6)(8) | Oes | Nac oes | Oes |

### *Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth*

47. Mae'r adran hon yn debyg i'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, ac yn ei disodli. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organeddau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, sy'n arwyddocaol iawn yn eu tyb hwy o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

48. Cyn cyhoeddi, adolygu a diwygio'r rhestrau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC (is-adrannau (2) a (4)).

49. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu mesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, ac annog eraill i wneud hynny hefyd (is-adran (3)).

50. Wrth baratoi'r rhestr neu fabwysiadu unrhyw fesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y'u nodir yn adran 4 o'r Ddeddf). Felly, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth briodol, fel y'i darperir yn

yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 7), er enghraifft, yn ogystal â chysylltu ag unrhyw randdeiliaid perthnasol (is-adran (5)).

51. Mae adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wedi ei diddymu gan baragraff 9(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

### *Adran 8 – Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol*

52. Er mwyn cynorthwyo personau i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru, mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol'. Bydd yr adroddiad hwn yn ffynhonnell dystiolaeth a fydd ar gael i unrhyw berson sy'n ymdrin ag adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd o gymorth i unrhyw berson sy'n dilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol; mae ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol yn rhan o'r egwyddor a nodir yn adran 4(e).

53. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad CNC o gyflwr presennol adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, ei asesiad o gyflwr ecosystemau o ran darparu manteision lluosog, ac a fydd eu statws presennol yn gallu addasu i bwysau er mwyn sicrhau bod y manteision lluosog hynny'n cael eu darparu yn y tymor hir.

54. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys asesiad o fioamrywiaeth, yn ogystal â gwybodaeth am y prif dueddiadau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol, neu a allai effeithio arnynt, a gwybodaeth am unrhyw feysydd lle gallai fod diffyg gwybodaeth ddigonol i allu cynnal asesiad.

55. Dyletswyddau cyffredinol CNC fydd yn llywio'r gwaith o baratoi adroddiad o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys ei ddiben cyffredinol fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Ddeddf hon), sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer ei swyddogaethau.

56. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn pedwar mis o'r adeg y daw'r is-adran hon i rym. Daw'r is-adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 88(2)(a)).

57. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi adroddiad cyn diwedd y flwyddyn cyn y flwyddyn y cynhelir pob etholiad cyffredinol arferol dilynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf Cymru 2014) yn darparu y bydd etholiad cyffredinol arferol yn cael ei gynnal yn ystod y bumed flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol arferol diwethaf. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar gyflwr adnoddau naturiol, bydd yr etholiad cyffredinol arferol nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2021. Felly, bydd rhaid cyhoeddi'r ail adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cyn diwedd blwyddyn galendr 2020, a chyhoeddi adroddiad dilynol bob pum mlynedd.

58. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad terfynol o dan is-adran (4). Bydd rhaid cyhoeddi'r fersiwn ddrafft o'r ail adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol, felly, cyn diwedd blwyddyn galendr 2019. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i holl gylchoedd cyhoeddi'r adroddiadau ar gyflwr adnoddau naturiol, ac eithrio cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o dan is-adran (3).

59. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf wrth baratoi polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (adran 9(9)).

### *Adran 9 – Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol*

60. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' sy'n amlinellu eu polisïau, ac a fydd yn cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler adran 3).

61. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol, yn eu barn hwy, ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth baratoi a diwygio'r polisi, roi sylw i'r 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol' diweddaraf. Yn ogystal â hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth baratoi neu wrth ddiwygio'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' (is-adran (8)).

62. Rhaid i'r polisi hwn hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd wrth ei lunio, ac unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriadau.

63. Mae is-adran (2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn cynnwys yr hyn y mae angen ei wneud, yn eu barn hwy, mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

64. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu pob cam rhesymol er mwyn gweithredu'r polisi, yn ogystal ag annog partïon eraill i weithredu'r polisi. Wrth weithredu'r polisi rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler is-adran (8)).

65. Rhaid cyhoeddi ac adolygu'r polisi yn unol â'r amseroedd a nodir yn yr adran hon. Rhaid cyhoeddi'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' cyntaf o fewn deg mis o'r adeg y daw'r adran hon i rym. Daw'r adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 88(2)(a)).

66. Mae'r polisi yn ddogfen barhaus, oherwydd bydd y polisi a gyhoeddir yn dal i fod yn gymwys oni bai a hyd nes y cyhoeddir polisi diwygiedig yn dilyn adolygiad. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r polisi unrhyw bryd ond rhaid iddynt ei adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r gofyniad i adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol yn gymwys boed hwnnw'n etholiad cyffredinol arferol (o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) neu'n etholiad eithriadol (o dan adran 5 o'r Ddeddf honno). Yn dilyn adolygiad, caiff Gweinidogion Cymru ddewis parhau â'r polisi presennol, neu gallant ddiwygio'r polisi fel y gwelant yn dda. Os caiff y polisi ei adolygu, rhaid ailgyhoeddi'r adroddiad fel y'i diwygiwyd (gweler is-adran (7)).

### *Adran 10 – Ystyr corff cyhoeddus yn adrannau 11 i 15*

67. Mae adran 10 yn rhestru personau penodol sy'n 'gorff cyhoeddus' at ddibenion adrannau 11 i 15 o'r Ddeddf.

68. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio ystyr corff cyhoeddus yn adran 10 drwy ychwanegu person at y rhestr, neu ei dynnu ymaith, neu ddiwygio'r disgrifiad o berson o'r fath. Dim ond cyrff sydd â swyddogaethau cyhoeddus y caniateir eu hychwanegu at y rhestr (is-adran (3)). Os yw'r corff yn arfer swyddogaethau cyhoeddus a swyddogaethau eraill, dim ond ei swyddogaethau cyhoeddus gaiff fod yn ddarostyngedig i adrannau 11 i 14 o'r Ddeddf (is-adran (4)). Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny y caniateir ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron at is-adran (1).

69. Cyn arfer y p#er hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC, y person yr effeithir arno ac unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol (is-adran (5)).

### *Adran 11 – Datganiadau ardal*

70. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC hwyluso'r gwaith o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol drwy baratoi, cyhoeddi a gweithredu 'datganiadau ardal'. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynnwys yn un neu ragor o'r datganiadau ardal, ond mae'n darparu mai CNC sy'n penderfynu ar nifer, lleoliad a graddau daearyddol yr ardaloedd y caiff adroddiadau eu paratoi ar eu cyfer, yn unol â'r hyn sydd fwyaf priodol, yn ei farn, er mwyn hwyluso'r broses o roi'r polisi ar waith.

71. Wrth arfer unrhyw swyddogaethau, caiff CNC ei lywio gan ei ddyletswyddau cyffredinol. Bydd ei ddiben cyffredinol, fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Ddeddf hon) yn arbennig o berthnasol i'r adran hon. Golyga hyn ei bod yn ofynnol i CNC gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â datganiadau ardal. Mae is-adran (2) yn taflu goleuni ar is-adran (1) er mwyn cadarnhau y gall CNC hefyd ddefnyddio'r datganiadau am unrhyw reswm arall i'w gynorthwyo i arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Er enghraifft, caiff CNC ddewis defnyddio datganiad ardal i amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r ardal honno, yn ogystal â'r swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi cenedlaethol.

72. Nid yw ffurf a chynnwys y datganiadau ardal wedi eu rhagnodi; mater i CNC yw penderfynu ar hynny. Fodd bynnag, mae is-adran (3)(a)-(d) yn cynnwys materion y mae'n rhaid eu cynnwys, mewn termau cyffredinol, ym mhob datganiad ardal y bydd yn ei baratoi.

73. Mae paragraff (a)(i), (ii) a (iii) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datganiad ardal egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer ardal, drwy gynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol o fewn yr ardal honno a'r manteision y maent yn eu cynnig, a thrwy bennu'r blaenoriaethau, y peryglon a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno.

74. Mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnwys o fewn datganiad ardal sut y mae wedi cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 4) wrth baratoi datganiad ardal. Mae paragraff (c) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnig gwybodaeth ar sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn yr ardal honno er mwyn ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodir ym mharagraff (a)(iii) a sut y bydd yn cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy wrth wneud hynny.

75. Mae paragraff (d) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC bennu'r cyrff cyhoeddus hynny y mae'n ystyried y gallant fod o gymorth o ran y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd.

76. Mae adran 14 o'r Ddeddf hon yn cynorthwyo CNC i gydymffurfio a'i rwymedigaeth i baratoi a gweithredu datganiadau ardal drwy roi pwerau iddo ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol (a restrir fel 'cyrff cyhoeddus' yn adran 10 o'r Ddeddf hon) ddarparu gwybodaeth a chymorth arall iddo.

77. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynnwys yn un neu ragor o'r datganiadau ardal.

78. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal. Rhaid iddo hefyd annog personau eraill i weithredu'r datganiad ardal. Mae dyletswydd ar bersonau a restrir fel 'corff cyhoeddus' yn adran 10 o'r Ddeddf hon i ddarparu unrhyw gymorth i CNC y mae ei angen arno wrth arfer swyddogaethau o dan yr adran hon (gweler adran 14). Mae'r personau hynny hefyd yn ddarostyngedig i b#er Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo o dan adran 12, a rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir iddynt yn unol ag adran 13.

79. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod datganiadau ardal a gaiff eu paratoi o dan adran (1) yn parhau i fod yn effeithiol wrth hwyluso a gweithredu’r polisi cenedlaethol. Mae’n ofynnol i CNC adolygu’r datganiadau yn gyson, a chaiff eu diwygio unrhyw bryd.

80. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ystyried rhesymoli nifer y cynlluniau, y strategaethau neu’r dogfennau eraill tebyg sydd ar waith yn yr ardal y mae unrhyw ddatganiad ardal penodol yn ei chwmpasu. Cyn cyhoeddi datganiad, rhaid i CNC ystyried:

- a ddylid cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall (gan gynnwys datganiad ardal arall) yn y datganiad. Er enghraifft, caiff CNC geisio rhesymoli’r cynlluniau eraill y mae’n eu paratoi drwy eu hymgorffori mewn datganiad ardal; neu
- a ddylid cynnwys datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

### *Adran 12 – Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i weithredu datganiadau ardal*

81. Mae’r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo corff cyhoeddus (fel y’i rhestrir yn adran 10 o’r Ddeddf), i gymryd camau i ymdrin â’r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 11(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried ei bod yn rhesymol ymarferol i’r corff gymryd camau o’r fath. Dim ond rhywbeth sydd o fewn cwmpas ei swyddogaethau (is-adran (4)) y gall cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ei wneud.

82. Er enghraifft, pan fo CNC (yn unol ag adran 14) yn gofyn i gorff gymryd camau penodedig i’w gynorthwyo i weithredu datganiad ardal, ac yna bod y corff yn methu â darparu’r cymorth hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd i’r corff. Gallai’r cyfarwyddyd hwn ei gwneud yn ofynnol i’r corff ddarparu’r cymorth hwn, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru o’r farn ei bod yn rhesymol ymarferol i’r corff wneud hynny.

83. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r corff cyhoeddus yr effeithir arno cyn dyroddi cyfarwyddyd o dan yr adran hon. Rhaid i gyfarwyddyd a wneir o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi a gall unrhyw gyfarwyddyd dilynol ei amrywio neu ei ddirymu (is-adran (5)).

84. Rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â chyfarwyddyd sydd wedi ei ddyroddi o dan yr adran hon (is-adran (3)). Gall Gweinidogion Cymru orfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy wneud cais i’r Uchel Lys am orchymyn gorfodi. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn gorfodi yn achos posibl o ddirmyg llys.

### *Adran 13 – Canllawiau ynghylch gweithredu datganiadau ardal*

85. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 10) i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y camau y dylid eu cymryd i ymdrin â’r materion sydd wedi eu pennu mewn datganiad ardal a gynhyrchwyd gan CNC (o dan adran 11) ar flaenoriaethau, peryglon a chyfleoedd penodol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno.

86. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i’r canllawiau hyn o ran sut y maent yn arfer eu swyddogaethau mewn modd a all, o ganlyniad, gyfrannu at weithredu datganiad ardal.

### *Adran 14 – Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC*

87. Mae’r adran hon yn gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 10) i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, at ddiben paratoi

a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8) a datganiad ardal (gweler adran 11), pan fo CNC wedi gofyn am wybodaeth neu gymorth o'r fath.

88. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y corff cyhoeddus rhag gwneud hynny, er enghraifft, os yw gofynion diogelu data neu ddiogelwch cenedlaethol yn berthnasol, neu pe byddai darparu gwybodaeth yn mynd yn groes i hawl sydd wedi'i hamddiffyn o dan gyfraith hawliau dynol.

89. Nid yw'r ddyletswydd i gynorthwyo CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw darparu'r cymorth yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff neu pe byddai'n cael effeithiau andwyol o ran arfer swyddogaethau'r corff (is-adran (2)). Er enghraifft, ni allai CNC ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus, sydd â statws elusennol, weithredu mewn modd a fyddai'n groes i'w statws elusennol.

90. Mae is-adran (3) yn darparu bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a/neu gymorth o dan is-adrannau (1) a (2), ond dim ond ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8). Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y Comisiynydd rhag darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu os yw'r Comisiynydd o'r farn bod darparu'r cymorth yn anghydnaws â'i ddyletswyddau neu y byddai'n arwain at effeithiau andwyol o ran arfer ei swyddogaethau.

### *Adran 15 – Dyletswydd ar CNC i ddarparu cyngor neu gymorth arall i gyrff cyhoeddus*

91. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, o gael cais gan gorff cyhoeddus (gweler adran 11), ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i'r corff hwnnw at ddibenion gweithredu datganiad ardal.

92. Ni ddylai CNC ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r gyfraith yn ei wahardd rhag ei darparu, fodd bynnag.

93. Nid yw'n ofynnol ychwaith i CNC ddarparu unrhyw gymorth arall y bydd corff cyhoeddus yn gofyn amdano os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau CNC ei hun, neu y byddai'n cael effaith ar arfer ei swyddogaethau mewn ffordd arall (is-adran (2)). Er enghraifft, byddai hyn yn berthnasol pe byddai darparu cyngor yn anghydnaws â swyddogaeth reoleiddio CNC.

### *Adran 16 – P#er i ymrwymo i gytundebau rheoli tir*

94. Mae adran 16 yn galluogi CNC i ymrwymo i gytundebau gydag unrhyw bersonau sydd â buddiant mewn tir (fel y'i diffinnir yn is-adran (3)) yngl#n â'r ffordd y maent yn rheoli eu tir. Mae'n disodli pwerau amrywiol CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli tir a geir yn adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981), adrannau 15 a 45 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) ac adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949).

95. Dim ond at ddibenion cadwraeth natur, darparu mynediad i gefn gwlad neu wella harddwch naturiol cefn gwlad (adran 39 o Ddeddf 1981), gwarchod a diogelu safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (adran 15 o Ddeddf 1968) neu er mwyn sicrhau bod tir yn cael ei reoli fel gwarchodfa natur (adran 16 o Ddeddf 1949) y gellid defnyddio'r pwerau blaenorol.

96. Mae paragraffau 1 i 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn cael gwared ar bwerau CNC i ymrwymo i gytundebau o dan Ddeddf 1949, Deddf 1968 a Deddf 1981. Nid yw ei b#er i ymrwymo i gytundebau rheoli tir o dan reoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi'i ddiddymu, fodd bynnag, ac nid yw darpariaethau'r Ddeddf hon yn effeithio arno.

97. Mae adran 16 o’r Ddeddf hon yn rhoi p#er ehangach i ymrwymo i gytundebau rheoli tir at unrhyw ddiben o fewn cylch gwaith CNC. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un neu ragor o’r dibenion y gellid defnyddio cytundebau rheoli tir a wnaed o dan y pwerau blaenorol ar eu cyfer, ond nid yw wedi ei gyfyngu i’r dibenion hynny.

98. Mae hefyd yn cynnwys cytundebau sy’n hyrwyddo dyletswydd gyffredinol CNC i ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel sy’n cael ei ddarparu o dan adran 5 o’r Ddeddf hon. Mae effaith adran 5 ar adran 16 yn golygu y bydd angen i CNC hefyd gymhwyso egwyddorion cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel a bennir yn adran 4 o’r Ddeddf hon.

99. Caiff CNC, o dan adran 16, ymrwymo i gytundebau rheoli tir gydag unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir.

100. Diffinnir person sydd â buddiant yn y tir yn is-adran (3) ac mae’n golygu’r sawl sydd ag ystad rydd-ddaliadol neu lesddaliadol mewn tir, pridiant rhent a’r sawl sydd â hawliau megis helwriaeth.

101. Nid yw adran 16 yn gosod gofyniad ar berson i ymrwymo i gytundeb gydag CNC, a threfniant gwirfoddol ydyw.

102. Er enghraifft, gall telerau cytundeb rheoli tir olygu ei bod yn ofynnol i berchennog tir reoli ei dir mewn ffordd arbennig, ac y caiff dderbyn taliadau neu fuddiannau eraill am wneud hynny.

103. Mae adran 16(2) yn darparu rhestr, nad yw’n gyflawn, o’r math o delerau ac amodau y gellir eu cynnwys mewn cytundeb. Ceir rhai enghreifftiau isod o’r ffordd y gellir defnyddio tir a’r cyfyngiadau ar weithgareddau y gellir ymgymryd â hwy:

- Ar dir fferm, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir beidio â thrin rhan benodol o’r tir, o dan delerau cytundeb, neu gellir gofyn iddo beidio â thorri coed penodol.
- Efallai mai un o delerau cytundeb yw bod rhaid i berchennog / feddiannwr y tir reoli llif y d#r drwy ei dir at ddibenion rheoli’r perygl o lifogydd. Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir gadw mawnogydd neu goedwigoedd penodol, o dan y cytundeb, gan gyfyngu ar y defnydd o’r tir heblaw at ddiben atal llifogydd. Dyma enghraifft o fesurau eraill y gellir eu cymryd i reoli’r perygl o lifogydd drwy reoli tir mewn ffordd sy’n cadw d#r yn ôl ac yn arafu ei lif er mwyn atal llifogydd i lawr yr afon.
- Caiff CNC gyflawni gweithgareddau rheoli (h.y. torri coetir) ar y tir, neu benodi rhywun arall i wneud hynny.
- Caiff CNC hefyd ddefnyddio cytundebau rheoli i reoli tir sydd o fewn SoDdGA. Caiff telerau cytundeb adlewyrchu buddiannau unrhyw gynllun rheoli sy’n berthnasol i SoDdGA y gellir ei wneud o dan adran 28J o Ddeddf 1981. Mae cynllun rheoli yn amlinellu mesurau sydd i’w cymryd er mwyn gwarchod ac adfer SoDdGA.

104. Mae angen darllen adran 16 ar y cyd â’r diwygiadau canlyniadol a wneir i Ddeddf 1949, i Ddeddf 1968 ac i Ddeddf 1981 gan Atodlen 2, Rhan 1 o’r Ddeddf hon, sy’n diddymu’r adrannau hynny o ran CNC. Mae darpariaethau trosiannol yn adran 20 yn sicrhau bod unrhyw gytundebau presennol a wnaed gan CNC i’w trin fel cytundebau o dan y Ddeddf hon.

### *Adran 17 – Effaith cytundebau rheoli tir penodol ar olynwyr yn y teitl*

105. Mae adran 17 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff telerau cytundeb rheoli tir adran 16 rwymo perchnogion neu denantiaid dilynol y tir. Nid yw’r adran hon ond yn gymwys pan fo gan y person sy’n gwneud y cytundeb rheoli tir “fuddiant cymwys” fel y’i diffinnir yn is-adran (3), h.y. pan fo’r person yn berchen ar y tir fel rhydd-ddeiliad

neu'n ei ddal o dan les a roddir am dymor o saith mlynedd o leiaf. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo'r teitl yn y tir naill ai wedi'i gofrestru, neu heb ei gofrestru. Mae'r rhan fwyaf o deitlau yn y tir yng Nghymru a Lloegr wedi'u cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM ond mae peth tir sy'n dal heb ei gofrestru.

106. Mae adran 17(1) yn gymwys i dir nad yw wedi'i gofrestru. Gellir cofrestru'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn unol â Deddf Pridiannau Tir 1972 (p.61). Effaith cofrestru'r pridiant tir yw bod telerau cytundeb rheoli tir yn rhwymo unrhyw olynydd i'r person sydd â buddiant cymwys.

107. Diffinnir olynydd yn is-adran (4) sef, fel arfer, unrhyw berson sy'n prynu'r buddiant rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol (am dymor o fwy na 7 mlynedd) mewn tir. Ni fydd telerau cytundeb yn rhwymo'r prynwr os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel pridiant tir Dosbarth D(ii).

108. Mae adran 17(2) yn gymwys i dir cofrestredig ac mae'n rhaid i'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli tir adran 16 gael ei gofrestru drwy hysbysiad ar y teitl cofrestredig yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 (p.9). Os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel hysbysiad ni fydd telerau'r cytundeb yn rhwymo'r olynydd yn y teitl.

109. Ar hyn o bryd, mae cytundeb a wneir o dan adran 39 o Ddeddf 1981 yn rhwymo perchnogion neu feddianwyr olynol / y dyfodol boed y tir wedi'i gofrestru ai peidio.

110. Ar yr amod fod CNC naill ai'n cofrestru'r buddiant o dan gytundeb naill ai fel hysbysiad o deitl ar y gofrestr yn achos tir cofrestredig, neu fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn achos tir heb ei gofrestru, caiff orfodi telerau cytundeb rheoli tir yn erbyn unrhyw berson sy'n caffael buddiant cymwys yn y tir.

111. Mae angen darllen adran 17 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol y mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn eu gwneud.

### *Adran 18 – Cymhwyso Atodlen 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i gytundebau rheoli tir*

112. Mae'r adran hon yn galluogi personau penodol na fyddai ganddynt, o bosibl, y p#er hwnnw fel arall, i ymrwymo i gytundebau rheoli tir adran 16 gydag CNC. Yr un personau yw'r rhain â'r personau sydd â'r p#er i ymrwymo i gyfamodau neilltuo coedwigaeth o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn rhinwedd Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Dim ond i denantiaid am oes tir setledig, tir sy'n eiddo i brifysgolion a cholegau penodol, a thir eglwysig penodol y mae'r adran hon yn berthnasol.

### *Adran 19 – Effaith cytundebau ar neilltuo priffordd a rhoi hawddfraint*

113. Pan fo'r cyhoedd neu berson penodol wedi defnyddio hawl tramwy ar draws tir yn rhinwedd cytundeb rheoli tir adran 16, effaith yr adran hon yw nad yw'r defnydd o'r tir yn berthnasol wrth benderfynu o dan y gyfraith a yw'r tir i'w drin fel tir sydd wedi ei neilltuo fel priffordd neu a yw hawddfraint i'w drin fel pe bai wedi ei roi.

### *Adran 20 – Darpariaethau trosiannol*

114. Mae'r adran yn darparu y caiff cytundebau rheoli tir a wnaed gan CNC o dan Ddeddf 1981, Deddf 1968 a Deddf 1949, cyn i'w bwerau o dan y Deddfau hynny gael eu disodli gan y pwerau yn adran 16 o'r Ddeddf hon, eu trin fel cytundebau rheoli tir o dan adran 16 o'r Ddeddf hon. Bydd adrannau 17 i 21 yn gymwys iddynt felly.

### *Adran 21 – Tir y Goron*

115. Mae'r adran hon yn dweud pwy gaiff ymrwymo i gytundebau rheoli tir adran 16 ar ran y Goron.

116. Caiff CNC ymrwymo i gytundeb adran 16 mewn perthynas â thir y Goron ond mae adran 21 yn golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod priodol naill ai wneud y cytundeb neu gymeradwyo'r cytundeb, gan ddibynnu a yw'r Goron yn dal y buddiant perthnasol mewn tir. Pennir yr awdurdod priodol ar sail pwy yw perchennog tir y Goron, a chaiff ei ddiffinio yn is-adran (4). Diffinnir "tir y Goron" yn is-adran (3).

117. Mae is-adran (5) yn darparu bod unrhyw gwestiwn ynghylch pwy yw'r awdurdod priodol yn cael ei gyfeirio at y Trysorlys.

### *Adran 22 – P#er i atal dros dro ofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol*

118. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru, o gael cais gan CNC, i wneud rheoliadau sy'n gallu atal dros dro ddarpariaeth statudol benodol y mae CNC yn gyfrifol amdani, er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 23. Bydd y cynlluniau hyn yn galluogi CNC i dreialu dulliau newydd i'w helpu i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, a gall gynnwys datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd, neu gymhwyso neu ddatblygu ymhellach ddulliau, gysyniadau neu dechnegau cyfredol.

119. Caiff rheoliadau o dan adran 22(1) roi eithriad rhag gofyniad, llacio gofyniad a'i gwneud yn ofynnol i'r person y mae'r eithriad neu'r llacio yn gymwys iddo gydymffurfio ag amodau a bennir mewn rheoliadau. Mae'r atal dros dro neu'r llacio wedi ei gyfyngu i gyfnod nad yw'n fwy na thair blynedd (ac y caniateir ei ymestyn unwaith am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd). Gweler adran 22(4) a (5).

120. Caiff y rheoliadau hefyd addasu deddfiad mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn gorfodi eithriad, llacio neu amodau, neu o ganlyniad i hynny. Mae paragraffau (c) a (d) yn darparu, pan fo gofyniad statudol yn cael ei atal dros dro neu'n cael ei lacio gan reoliadau o dan is-adran (1), y caniateir gosod amodau y mae'n rhaid i barti gydymffurfio â hwy, ac hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo mesurau gorfodi cyfredol o'r deddfiad cyfredol.

121. Dim ond mewn perthynas â gofynion statudol y mae CNC yn gyfrifol amdanynt y caniateir gwneud rheoliadau. Diffinnir y gofynion hyn yn adran 22(9). Rhaid i'r gofyniad gael ei osod drwy ddeddfiad. CNC sy'n gyfrifol am y gofyniad statudol os yw'n ofyniad:

- i gydymffurfio â safon neu ofyniad a osodir gan CNC;
- i gael trwydded neu awdurdodiad arall gan CNC cyn gwneud rhywbeth;
- y caiff CNC ei orfodi; neu
- sy'n gymwys i CNC ac sy'n ymwneud â'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a'u defnyddio, (neu at ba ddibenion y gwneir hynny).

122. Mae adran 22(2) yn darparu na chaiff y rheoliadau dynnu ymaith neu addasu swyddogaeth un o Weinidogion y Goron a oedd yn arferadwy cyn 5 Mai 2011, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

123. Mae adran 22(3) yn darparu hefyd na chaniateir gwneud y rheoliadau onid yw Gweinidogion Cymru:

- wedi eu bodloni bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol (gweler adrannau 22(9) a 23) sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y'i diffinnir yn adran 3);
- wedi eu bodloni nad yw'r rheoliadau yn cael yr effaith gyffredinol o gynyddu'r baich rheoliadol ar unrhyw berson;

- wedi ymgynghori â'r rhai hynny y maent yn barnu bod darpariaethau'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt a'r personau y credant fod y cynllun arbrofol yn debygol o effeithio arnynt fel arall.

124. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gweler adran 25(3)) oni bai mai'r unig effaith sylweddol yw dirymu rheoliadau blaenorol o dan adran 22(1) – mewn achosion felly yr unig beth y mae angen ei wneud yw eu gosod yn y Cynulliad ar ôl iddynt gael eu gwneud, ac nid oes unrhyw ofyniad i gynnal ymgynghoriad. Gellid dirymu rheoliadau os yw cynllun arbrofol wedi dod i ben cyn y cyfnod tair blynedd cychwynnol neu cyn diwedd cyfnod unrhyw estyniad, sy'n golygu nad oes angen y rheoliadau mwyach.

125. Dim ond mewn perthynas â Chymru y caiff y rheoliadau fod yn gymwys.

126. Gallai cais oddi wrth CNC i reoliadau gael eu gwneud fod ar y sail, er enghraifft, y byddai angen, ar gyfer cynllun arbrofol arfaethedig penodol, cael eithriad rhag yr angen i gael cydsyniad penodol er mwyn gallu cyflawni gweithgaredd penodol. Efallai mai diben atal hynny dros dro fyddai treialu safonau cyffredin gofynnol, y gellid eu cymhwyso yn lle'r cydsyniad mewn amgylchiadau penodol neu ar gyfer gweithgareddau penodol.

127. Mae adran 22(8) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC werthuso cynllun arbrofol y cafodd gofynion statudol eu hatal dros dro neu eu llacio mewn perthynas ag ef, a chyhoeddi gwerthusiad o'r cynllun.

128. Mae adran 22(9) yn diffinio cynllun arbrofol fel cynllun a gynhelir o dan drefniadau a wneir gan CNC o dan erthygl 10C o'r Gorchymyn Sefydlu, sy'n gynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig, neu i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoliadol.

### *Adran 23 – P#er CNC i gynnal cynlluniau arbrofol etc*

129. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth yn lle erthygl 10C o'r Gorchymyn Sefydlu.

130. Effaith erthygl 10C (y mae adran 23 yn ei rhoi yn lle erthygl 10C), yw ymestyn swyddogaethau ymchwil cyffredinol CNC i gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer cynnal cynlluniau arbrofol.

131. Mae erthygl 10C(1) yn rhoi p#er i CNC (y cyfeirir ato fel "y Corff" yn y Gorchymyn Sefydlu) wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ymchwil a chynlluniau arbrofol sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau. Caiff CNC neu bersonau eraill gyflawni ymchwil neu gynlluniau.

132. Mae erthygl 10C(3) yn darparu bod rhaid i CNC, pan fo'n arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â chadwraeth natur, roi sylw i'r safonau cyffredin ar gyfer monitro cadwraeth natur, ymchwil i gadwraeth natur a gwaith dadansoddi'r wybodaeth sy'n deillio o hynny y gallai'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (fel y darperir o dan adran 34(2) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) fod wedi'i sefydlu.

133. Diben erthygl 10C yw galluogi CNC i gynnal, cefnogi neu gomisiynu gwaith ymchwil yn ogystal â chynlluniau arbrofol neu arloesol, os yw'r cynlluniau hyn yn ffordd o dreialu dulliau newydd o gyflawni ei bwerau a'i rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth mewn ffordd a all ei helpu i gyflawni ei ddiben cyffredinol o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

134. Ar hyn o bryd mae gan CNC bwerau o dan adran 4 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 ("Deddf 1968") i wneud a chynnal cynlluniau arbrofol a gynlluniwyd i hwyluso mwynhau cefn gwlad, neu i warchod neu wella ei harddwch neu ei amwynder naturiol. Mae'r p#er hwn wedi'i gyfyngu, felly, i agwedd benodol ar gylch gwaith CNC. Mae erthygl 10C

yn ymestyn cwmpas p#er CNC i gynnal cynlluniau arbrofol. Caiff adran 4 o Ddeddf 1968 ei diddymu (gweler paragraff 2(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf).

135. At ddibenion erthygl 10C, cynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu neu i gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig, neu i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoliadol, yw cynllun arbrofol.

136. Caiff CNC dreialu datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd er mwyn gweithredu mewn modd sy'n helpu i gyflawni'r amcan o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Gallai hyn gynnwys dulliau gweinyddol, technegol neu wyddonol o gyflawni'r amcan hwn. Un enghraifft o hyn fyddai treialu safonau neu amodau newydd, a allai arwain at ddatblygu deddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer rheol gyfrwymol gyffredinol, hynny, yw treialu dulliau eraill o reoleiddio gweithgareddau.

137. Enghraifft o hyn fyddai pan fo CNC yn ceisio datblygu codau ymarfer statudol a all nodi safonau gofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol, heb fod angen caniatâd na thrwydded, ac sy'n gallu sicrhau perfformiad o'r un safon, neu well. Efallai y bydd CNC yn awyddus i gynnal treial mewn maes penodol y mae datganiad ardal yn ei gwmpasu (fel y darperir yn adran 11 o'r Ddeddf) er mwyn nodi swyddogaeth adnoddau naturiol o ran helpu i leihau llifogydd (yn sgil swyddogaeth mawnogydd, er enghraifft).

138. Nid yw'r p#er i gefnogi cynlluniau arbrofol yn erthygl 10C(2) wedi'i gyfyngu i gymorth ariannol ac felly gallai gynnwys darparu offer ac arbenigedd. Os yw CNC yn darparu cymorth ariannol, gall fod ar ffurf grant neu fenthyciad neu gyfuniad o'r ddau, a gall fod yn gysylltiedig ag amodau sy'n golygu bod angen ad-dalu'r grant i gyd neu ran ohono (erthyglau 10B(2) a (3) o'r Gorchymyn Sefydlu).

### *Adran 24 – P#er i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau*

139. Mae adrannau 8(3) i (5) a 9(5) yn nodi'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r adroddiad drafft ar gyflwr adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid yr amserlenni hynny. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC cyn gwneud y rheoliadau.

### *Adran 25 – Rheoliadau o dan y Rhan hon*

140. Mae'r adran hon yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 1 o'r Ddeddf. Mae'r holl reoliadau yn Rhan 1 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 22(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os mai'r pwrpas yw dirymu rheoliadau presennol a wneir o dan yr adran honno. Yn hytrach, rhaid eu gosod gerbron y Cynulliad yn unig (is-adran (4)).

141. Defnyddir y term y "weithdrefn gadarnhaol" i gyfeirio at offerynnau statudol y mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo cyn iddynt ddod yn gyfraith.

142. Mae is-adran (2) yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rheoliadau yn Rhan 1 gael eu cymhwyso'n wahanol o dan wahanol amgylchiadau a gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

### *Adran 27 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau*

143. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n nodi'r mân ddiwygiadau, y diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â darpariaethau Rhan 1 o'r Ddeddf.

## Rhan 2 – Newid yn yr hinsawdd

144. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod 'cyfrif allyriadau net Cymru' ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru.

145. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau dargedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Rhaid i'r targedau interim hyn fod yn gyson â tharged 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau gyfres o gyllidebau carbon ar gyfer pob cyfnod o bum mlynedd rhwng 2016 a 2050 a sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob un o'r cyfnodau hynny yn fwy na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rhaid i'r cyllidebau carbon hyn fod yn gyson â'r targedau interim a'r targed ar gyfer 2050.

146. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynhyrchu adroddiad sy'n manylu ar y polisïau a'r cynigion a fydd yn cyflawni'r gostyngiadau y mae'r cyllidebau carbon yn gofyn amdanynt yng Nghymru drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb holl Weinidogion Cymru. Wrth osod neu ddiwygio targedau interim neu gyllidebau carbon, rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan y 'corff cynghori', a allai fod y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (a sefydlwyd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008), yn berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth, neu'n gorff newydd a sefydlir gan Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau'r corff cynghori.

### *Adran 28 – Diben y Rhan hon*

147. Mae'r adran hon yn nodi diben y Rhan hon, sef ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon t# gwydr o Gymru.

### *Adran 29 – Targed allyriadau 2050*

148. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Diffinnir y waelodlin yn adran 38 fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon t# gwydr penodol a restrir ar gyfer blynyddoedd gwaelodlin y nwyon hynny (naill ai 1990 neu 1995 ar gyfer pob nwy). Pennir y targed ar gyfer 2050 drwy gyfeirio at flynyddoedd gwaelodlin yn hytrach na swm penodol o allyriadau gan y gallai'r blynyddoedd gwaelodlin gael eu hadolygu wrth i'r ddealltwriaeth o allyriadau hanesyddol wella. Mae defnyddio gwaelodlin ar gyfer y cyfrifiad hwn yn gyson â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer Protocol Kyoto i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd 1998, sef cytundeb rhyngwladol i gyfyngu ar allyriadau nwyon t# gwydr, y mae'r DU yn barti iddo.

149. Mae is-adran (3) yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy osod targed 2050 fel canran sy'n fwy nag 80%. Ni chaniateir defnyddio'r p#er oni fodlonir un o'r amodau a ddarperir yn adran 32(2) a rhaid iddo roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Cyn i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft i ddiwygio targed 2050, rhaid iddynt ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)). Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(1), gan gynnwys a yw'r targed a gynigir y targed uchaf y gellir ei gyflawni ac, os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

150. Diffinnir y term "cyfrif allyriadau net Cymru" yn adran 34. Gweler y nodiadau esboniadol ar adrannau 33 a 38 i gael eglurhad manylach o gyllidebu carbon a chyfrif allyriadau net Cymru.

### *Adran 30 – Targedau allyriadau interim*

151. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau allyriadau interim, sef uchafsymiau cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn

darged interim. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau nad eir uwchlaw'r targedau hynny. Mynegir y targedau interim hyn fel gostyngiad canrannol a byddant yn gweithio yn yr un ffordd â tharged 2050.

152. Mae is-adran (3) yn pennu mai'r blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040, ac mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn diwedd 2018, osod targedau allyriadau interim ar gyfer y blynyddoedd hynny. Wrth wneud y rheoliadau sy'n gosod y targedau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)) cyn gosod rheoliadau drafft i osod y targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(1), gan gynnwys a yw'r targedau a gynigir y targedau uchaf y gellir eu cyflawni ac, os nad ydynt, beth yw'r targedau uchaf y gellir eu cyflawni.

### *Adran 31 – Cyllidebau carbon*

153. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod, ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o bum mlynedd, gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a elwir yn gyllideb garbon. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Y cyfnod cyllidebol cyntaf yw 2016 i 2020, a'r cyfnodau cyllidebol sy'n weddill yw pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, gan ddod i ben â 2046-2050.

154. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod 2 gyllideb garbon olynol ar gyfer y cyfnodau 2016-2020 a 2021-2025 cyn diwedd 2018. Mae hefyd yn creu dyletswydd i osod cyllidebau carbon dilynol o leiaf 5 mlynedd cyn y cyfnod cyllidebol o dan sylw. Wrth wneud y rheoliadau sy'n gosod cyllidebau carbon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)) cyn gosod y rheoliadau drafft i osod cyllideb garbon. Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(2), gan gynnwys lefel briodol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

### *Adran 32 – Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: egwyddorion*

155. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau allyriadau interim ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar lefel sy'n gyson â chyrraedd y targedau interim a tharged 2050.

156. O dan is-adran (2), ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau interim na chyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r amodau a ganlyn yn gymwys:

- Maent wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiad sylweddol naill ai mewn gwybodaeth wyddonol neu yng nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;
- Mae'r corff cynghori wedi argymell y newid; neu
- Mae rheoliadau wedi eu gwneud o dan adran 35 neu 37 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau o nwy t# gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol fel rhan o allyriadau Cymru o'r nwy, neu sy'n diwygio'r rhestr o nwyon t# gwydr sy'n gymwys at ddibenion Rhan 2.

157. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i gyfres o feini prawf wrth wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu wrth osod neu newid targed allyriadau interim, neu gyllideb garbon. Dyma'r meini prawf:

- Yr adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddwyd gan CNC o dan adran 8 o Ran 1 o'r Ddeddf hon;
- Yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Adroddiad diweddaraf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (os oes un ar gael ar adeg gosod neu newid unrhyw dargedau neu gyllideb);
- Gwybodaeth wyddonol am newid yn yr hinsawdd neu dechnoleg sy'n berthnasol iddo; a
- Cyfreithiau a pholisïau'r UE a chyfreithiau a pholisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol sy'n cynnwys mesurau i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang.

### *Adran 33 – Cyfrif allyriadau net Cymru*

158. Mae is-adran (1) yn diffinio cyfrif allyriadau net Cymru fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru ar ôl tynnu unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif am y cyfnod ac ychwanegu unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif am y cyfnod.

159. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio mewn rheoliadau pa unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru a'u didynnu ohono, a sut y gellir gwneud hynny.

160. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan is-adran (2) sicrhau, pan ddefnyddir unedau carbon i leihau cyfrif allyriadau net Cymru, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ogystal i'w gosod yn erbyn allyriadau eraill o le arall. Fel arall, gallai hyn arwain at "gyfrif dwbl".

161. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i reoliadau gyfyngu ar y graddau y gellir defnyddio unedau carbon i leihau cyfrif allyriadau net Cymru.

### *Adran 34 – Allyriadau net Cymru*

162. Mae'r adran hon yn diffinio allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwyon t# gwydr, ac yn darparu mai allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw allyriadau Cymru minws echdyniadau Cymru.

### *Adran 35 – Allyriadau Cymru o hedfan a morgludiant rhyngwladol*

163. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod allyriadau o nwy t# gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol yn cyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

### *Adran 36 – Unedau carbon*

164. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio "unedau carbon" mewn rheoliadau. Mae'n rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu cynllun neu ddefnyddio cynllun cyfredol ar gyfer cofrestru a chadw cyfrif o unedau carbon ac ar gyfer sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir cadw unedau carbon ynddynt.

### *Adran 37 – Nwyon t# gwydr*

165. Mae'r adran hon yn rhestru "nwyon t# gwydr" at ddiben Rhan 2 o'r Ddeddf ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn ychwanegu nwy neu ddiwygio disgrifiad o nwy.

### *Adran 38 – Y waelodlin*

166. Mae'r adran hon yn diffinio'r "waelodlin" at ddibenion y Rhan hon o'r Ddeddf ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r waelodlin honno. Byddai hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy t# gwydr sydd wedi ei ychwanegu gan reoliadau o dan is-adran 37(2) neu addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy t# gwydr sydd eisoes wedi ei restru. Ni chaiff Gweinidogion Cymru addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy t# gwydr onid ydynt wedi eu bodloni y byddai'n briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol yng nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

### *Adran 39 – Cynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd cyllidebau carbon*

167. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, sy'n amlinellu eu cynigion a'u polisïau ynghylch sut y cyrhaeddir y cyllidebau a bennwyd ganddynt. Rhaid i'r adroddiad gynnwys cynigion a pholisïau drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Rhaid cynhyrchu'r adroddiad ar y cyfnod cyllidebol cyntaf cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw (fel a ddarperir yn adran 31). Ar gyfer cyfnodau cyllidebol dilynol rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dan sylw. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad.

### *Adran 40 – Cario symiau o un cyfnod cyllidebol i un arall*

168. Mae'r adran hon yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru "gronni" a "benthyca" allyriadau rhwng cyfnodau cyllidebol.

169. O dan is-adrannau (1) a (3), caiff Gweinidogion Cymru "fenthyca" hyd at 1% o'r gyllideb nesaf. Caiff swm o'r gyllideb nesaf ei "gario yn ôl" i'r gyllideb flaenorol. Pan ddefnyddir y p#er hwn, caiff y gyllideb nesaf (a fydd eisoes wedi ei gosod drwy orchymyn) ei gostwng yn ôl y swm a fenthycwyd.

170. O dan is-adran (4) caiff Gweinidogion Cymru gario ymlaen unrhyw ran o'r gyllideb garbon sydd uwchlaw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod hwnnw (hynny yw "cronni" y swm sydd dros ben, ond nid y swm cyfan o anghenraid). Ychwanegir y swm sydd wedi ei gronni at y gyllideb nesaf (is-adran (5)).

171. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'corff cynghori' cyn arfer p#er o dan yr adran hon (hynny yw cyn cronni neu fenthyca).

### *Adran 41 – Datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol*

172. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y ffigurau terfynol ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru yn ystod cyfnod cyllidebol; defnyddir y ffigurau hyn i benderfynu a gyrhaeddwyd cyllideb garbon.

173. Mae is-adrannau (2) i (6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth ynghylch:

- o dan is-adran (2), gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer pob nwy t# gwydr (pob un o'r nwyon a gynhwysir yn y targed – gweler adran 36);
- o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau Cymru, neu a ddidynnwyd ohono, yn y cyfnod cyllidebol hwnnw, a manylion am nifer yr unedau hynny a'r mathau o unedau;

- o dan is-adran (4), swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol;
- o dan is-adran (5), a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cronni swm sydd dros ben o'r gyllideb flaenorol neu fenthyca o'r gyllideb nesaf (gan ddefnyddio'r p#er yn adran 40) ac, os ydynt, y swm a gronnwyd neu a fenthycwyd;
- o dan is-adran (6), swm terfynol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

174. Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i'r cwestiwn o ba un a gyrhaeddwyd y gyllideb i'w benderfynu drwy gyfeirio at y ffigurau yn y datganiad.

175. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu eglurhad ynghylch pam y maent yn ystyried bod y gyllideb garbon wedi ei chyrraedd, neu nad yw wedi ei chyrraedd.

176. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru o'r graddau y mae eu cynigion a'u polisïau (gan gynnwys y rhai a nodir yn yr adroddiad o dan adran 39) wedi cyfrannu at y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw a sut y maent wedi eu gweithredu.

177. O dan is-adran (10) rhaid i asesiad ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cyfateb i'r gofynion o dan adran 39(2) i gynnwys cynigion a pholisïau sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

178. Mae is-adrannau (11) a (12) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol carbon gynnwys amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau, boed hwy yng Nghymru neu yn rhywle arall, sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

### *Adran 42 – Cynigion a pholisïau pan nad yw cyllideb garbon wedi ei chyrraedd*

179. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo datganiad terfynol wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â chyfnod cyllidebol, a bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod yn fwy na'r gyllideb garbon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am yr allyriadau sy'n fwy na'r gyllideb garbon. Rhaid iddynt wneud hynny yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl gosod y datganiad terfynol ar gyfer y cyfnod cyllidebol.

### *Adran 43 – Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050*

180. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer 2050.

181. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys yr wybodaeth a ganlyn yn y datganiadau ar gyfer pob un o'r blynyddoedd targed priodol:

- o dan is-adran (2), mewn perthynas â phob un o'r nwyon t# gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn;
- o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru ac a ddidynnwyd ohono, a manylion am nifer yr unedau a'r math o unedau;
- o dan is-adran (4), swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.

182. Mae is-adran (5) yn darparu bod y penderfyniad ynghylch a yw'r targedau interim neu darged 2050 wedi eu cyrraedd i'w wneud drwy gyfeirio at yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn darged y mae'n ymwneud â hi.

183. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys eglurhad o'r rhesymau pam eu bod yn ystyried bod y targedau wedi eu cyrraedd, neu nad ydynt wedi eu cyrraedd.

184. Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi; er enghraifft, rhaid i'r datganiad ar gyfer 2020 gael ei osod cyn diwedd 2022 (is-adran (1)(b)).

185. Mae is-adran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfuno datganiad o dan yr adran hon â'r datganiad ar gyfer cyfnod cyllidebol carbon (o dan adran 41) sy'n ymwneud â blwyddyn y targed perthnasol.

### *Adran 44 – Corff cynghori*

186. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu corff newydd i arfer swyddogaethau'r corff cynghori neu i ddynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf. Dim ond person sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus y caiff Gweinidogion Cymru ei ddynodi.

187. Mae is-adran (3) yn darparu, os nad yw Gweinidogion Cymru yn sefydlu corff newydd nac yn dynodi person drwy reoliadau o dan is-adran (1), mai'r corff cynghori fydd Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU (a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008).

188. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) gynnwys darpariaethau ynghylch: statws ac aelodaeth y corff; cyflogi staff; tâl, lwfansau a phensiynau aelodau a staff; trefniadaeth a gweithdrefn y corff; ac adroddiadau a chyfrifon.

189. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff rheoliadau i sefydlu corff newydd fel y corff cynghori gynnwys darpariaeth a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff cynghori mewn perthynas â'r materion a restrir yn is-adran (4).

### *Adran 45 – Adroddiadau cynnydd*

190. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru yn nodi ei safbwyntiau ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas a'r targedau interim a tharged 2050 ac ar y cyllidebau carbon. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu safbwyntiau ynghylch a yw'r targedau a'r cyllidebau yn debygol o gael eu cyrraedd ac a yw'n ystyried bod unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol er mwyn eu cyrraedd.

191. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf (sy'n ymwneud â'r blynyddoedd 2016-20) sy'n rhoi ei safbwyntiau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y cyllidebau carbon a osodwyd o dan Ran 2, y targedau allyriadau interim a tharged allyriadau 2050.

192. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl iddynt osod datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 41. Rhaid i'r adroddiad hwn roi safbwyntiau'r corff cynghori ynghylch y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau cyfrif allyriadau net Cymru ac hefyd y materion a nodir yn is-adran (1) (h.y. y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y cyllidebau a'r targedau sy'n weddill).

193. Mae is-adrannau (3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n cynnwys ei safbwyntiau ynghylch a yw'r targed interim nesaf (os yw hynny'n berthnasol) a tharged 2050 y targed uchaf y gellir ei gyflawni ac, os

nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni. Rhaid i'r adroddiad gael ei anfon at Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl iddynt osod y datganiadau ar gyfer y blynyddoedd targed interim gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 43.

194. Mae is-adran (5) yn darparu y caniateir cyfuno adroddiad o dan is-adran (3) neu (4) ag adroddiad o dan is-adran (2) ar gyllideb garbon.

195. Mae is-adran (6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod copi o bob un o'r adroddiadau a dderbynnir ganddynt o dan is-adrannau (1) a (2) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

196. Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod ymateb i unrhyw adroddiad a dderbynnir ganddynt gan y corff cynghori o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl derbyn yr adroddiad.

### *Adran 46 – Dyletswydd ar y corff cynghori i ddarparu cyngor a chymorth*

197. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i ymateb i geisiadau am gyngor, dadansoddiad, gwybodaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Gweinidogion o dan y Ddeddf neu â newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol.

### *Adran 47 – Canllawiau i'r corff cynghori*

198. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

### *Adran 48 – Rheoliadau: gweithdrefn*

199. Mae'r adran hon yn sefydlu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Pan fo'r rheoliadau yn dynodi person i fod yn gorff cynghori (adran 44(1)(b)) ac nad ydynt yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, neu pan fo rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch arferion rhyngwladol adrodd ar garbon (adran 52), maent yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Cynulliad. Mae'r holl reoliadau eraill yn Rhan 2 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

### *Adran 49 – Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau*

200. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn i unrhyw reoliadau cadarnhaol drafft gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 48, ofyn am gyngor gan y corff cynghori (gweler adran 44) ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, ac ystyried y cyngor hwnnw hefyd.

201. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori, iddynt bennu cyfnod rhesymol ar gyfer darparu'r cyngor. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw a nodi'r rhesymau dros y cyngor.

202. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyngor a gânt gan y corff cynghori cyn cynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

203. Mae is-adran (6) yn darparu, os yw'r rheoliadau cadarnhaol drafft a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 48(3) yn wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, bod rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro paham y mae'r rheoliadau'n wahanol.

204. Mae is-adran (7) yn darparu nad oes angen i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori cyn gosod rheoliadau drafft sydd naill ai'n sefydlu corff newydd fel y corff cynghori neu'n dynodi person i fod yn gorff cynghori.

### *Adran 50 – Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau*

205. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae'n rhaid i'r corff cynghori ymateb i geisiadau o dan adran 49 am gyngor ar reoliadau arfaethedig.

206. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â rheoliadau arfaethedig sy'n newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targedau allyriadau interim, fod rhaid i gyngor y corff cynghori gynnwys ei farn ynghylch a yw'r targed a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, ac os nad ydyw, beth, ym marn y corff, yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

207. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â rheoliadau arfaethedig sy'n gosod neu'n newid cyllidebau carbon, i'r corff cynghori gynghori ar y lefelau y dylid eu pennu ar gyfer cyllidebau carbon ac i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy ostwng swm allyriadau net Cymru neu drwy ddefnyddio unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru. Rhaid i'r corff cynghori gynghori ar y cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon y dylai sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd) ei wneud, ac yn yr un modd sectorau eraill nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd). Mae'n ofynnol hefyd i'r corff cynghori gynghori ar sectorau o economi Cymru sy'n cynnig cyfleoedd penodol i wneud cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon drwy leihau allyriadau nwyon t# gwydr.

208. Mae i 'cynllun masnachu' at ddibenion yr adran hon yr ystyr a roddir gan adran 44 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae adran 44 o'r Ddeddf honno yn diffinio cynlluniau masnachu fel cynlluniau sydd naill ai:

- yn cyfyngu ar weithgareddau sy'n allyrru nwyon t# gwydr neu sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar allyriadau o'r fath (cynlluniau "capio a masnachu", er enghraifft, sy'n capio allyriadau o fath penodol o weithgareddau ac yn caniatáu masnachu allyriadau o fewn y cap), neu
- yn annog gweithgareddau sy'n lleihau, neu sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at leihau, allyriadau nwyon t# gwydr neu sy'n echdynnu nwyon t# gwydr o'r atmosffer.

209. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori, wrth gynghori Gweinidogion Cymru ar wneud rheoliadau a fydd yn newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, roi sylw i'r materion a restrir yn adran 32(3) o'r Ddeddf.

### *Adran 51 – Mesur allyriadau*

210. Mae adran 51 yn darparu bod allyriadau, gostyngiadau mewn allyriadau ac echdyniadau i'w mesur mewn symiau cyfwerth â thunelli o garbon deuocsid, ac yn diffinio'r term hwnnw.

### *Adran 52 – Arferion rhyngwladol ar adrodd ar garbon*

211. Mae adran 52 yn diffinio arferion rhyngwladol adrodd ar garbon yn nhermau protocolau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu drefniadau neu gytundebau Ewropeaidd neu ryngwladol eraill a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Mae'r p#er hwn yn caniatáu i'r diffiniad gael ei ddiweddaru er mwyn ystyried trefniadau a chytundebau rhyngwladol newydd.

## Rhan 3 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa

212. Mae'r Rhan hon yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa.

213. Mae'n diddymu, mewn perthynas â Chymru, adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27), ac Atodlen 6 iddi, a oedd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa a fwriedir i'w defnyddio unwaith yn unig. Diwygiwyd y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), a oedd yn rhoi pwerau pellach i wneud rheoliadau ynghylch sut y mae'n rhaid cymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa. Ni chafodd y pwerau hyn eu harfer bryd hynny gan mai'r polisi a oedd yn cael ei ffafrio oedd sicrhau cydweithrediad y gwerthwyr drwy eu hannog i gymhwyso'r enillion net at achosion da drwy gytundeb gwirfoddol.

214. Y rheoliadau a wnaed o dan y darpariaethau hyn sydd mewn grym ar yr adeg y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2011 ("Rheoliadau 2010").

215. Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn rhoi'r un pwerau i wneud rheoliadau â Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Dyma'r prif newidiadau:

- mae'r diffiniadau o'r termau allweddol "bag siopa" a "gwerthwr nwyddau" yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na chael eu gadael i'w nodi mewn rheoliadau;
- mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod isafswm tâl;
- caniateir cymhwyso'r tâl i unrhyw fath o fag siopa a bennir yn y rheoliadau ac nid yn unig ar gyfer y rhai hynny a fwriedir i'w defnyddio unwaith;
- bydd yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa at ddibenion elusennol sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd o fudd i Gymru; ceir eithriad ar gyfer y gwerthwyr hynny sy'n dymuno parhau â'u trefniadau presennol ag achosion da nad ydynt yn rhai amgylcheddol;
- mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ym mhob achos.

### *Adran 54 – Ystyr "bag siopa"*

216. Mae adran 54 yn diffinio "bagiau siopa" fel y bagiau hynny y gellir eu darparu yn y man y gwerthir y nwyddau, neu'r rheini a ddarperir at ddiben danfon nwyddau. Yn gyffredinol y bagiau siopau y byddai isafswm tâl yn gymwys iddynt fyddai'r rheini a ddarperir gan fanwerthwyr i'w cwsmeriaid pan fônt yn prynu nwyddau mewn siop, neu'r rheini a ddarperir gan gwmnïau sy'n danfon nwyddau, megis archfarchnadoedd sy'n darparu gwasanaeth danfon bwydydd ar-lein.

### *Adran 55 – Gofyniad i godi tâl*

217. Mae adran 55(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau bagiau siopa. Rheoliadau yw'r rhain sy'n ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau godi tâl am fagiau siopa, fel a bennir yn y rheoliadau, a gyflenwir o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (3). Yr amgylchiadau hynny yw bod y nwyddau naill ai'n cael eu gwerthu o le yng Nghymru, neu y bwriedir iddynt gael eu danfon i berson sy'n byw yng Nghymru.

218. Mae is-adran (4) yn darparu y gellir disgrifio bagiau siopa y mae'r gofyniad yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at eu manylion technegol megis maint, trwch, gwneuthuriad a phris y bag a/neu'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono, neu gyfuniad o unrhyw rai o blith y ffactorau hynny. Ni chafodd y pris ei nodi fel ffactor yn Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

### *Adran 56 – Gwerthwyr nwyddau*

219. Mae adran 56 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa fod yn gymwys naill ai i bob gwerthwr nwyddau neu i fathau penodol o werthwr (gweler is-adran (3)). Mae'n caniatáu i'r rheoliadau gymhwyso darpariaethau i werthwyr a enwir ac i werthwyr a ddynodir drwy gyfeirio at ffactorau penodedig (a rhoddir enghreifftiau o'r ffactorau y caniateir eu pennu yn is-adran (4)).

220. Mae is-adran (1) yn diffinio "gwerthwyr nwyddau", at ddiben y rheoliadau, fel person sy'n gwerthu nwyddau yng nghwrs busnes. Gall gwerthwr gynnwys, er enghraifft, fanwerthwyr y stryd fawr, archfarchnadoedd, masnachwyr stryd neu farchnad neu unrhyw berson sy'n rhedeg busnes sy'n gwerthu nwyddau ar y rhyngrwyd. Nid yw'r term yn cynnwys unrhyw bersonau sy'n gwerthu eu nwyddau eu hunain yn breifat yn achlysuro, mewn sêl cist car neu ar safle gwerthu neu ocsiwn ar y rhyngrwyd er enghraifft, ac ni chaniateir i'r rheoliadau fod yn gymwys iddynt.

221. Mae is-adran (2) yn egluro nad yw'n angenrheidiol bod y busnes a weithredir gan werthwr nwyddau yn fenter fasnachol er mwyn gwneud elw (felly gallai gwerthwr nwyddau fod yn elusen) a bod corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn gweithredu yng nghwrs busnes.

### *Adran 57 – Cymhwyso'r enillion*

222. O dan adran 57(1), rhaid i reoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd o fudd i Gymru. Mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (2), sy'n darparu bod rhaid i reoliadau gynnwys eithriad ar gyfer gwerthwyr sydd â threfniadau presennol i gymhwyso'r arian a enillir ganddynt drwy werthu bagiau siopa at ddibenion elusennol eraill.

223. Diffinnir "enillion net o'r tâl" yn adran 63, sef yr enillion gros ar ôl tynnu unrhyw swm y caiff y rheoliadau eu pennu megis, er enghraifft, costau gweinyddol. Ystyr "enillion gros o'r tâl" yw'r swm y mae'r gwerthwr yn ei dderbyn o ganlyniad i'r isafswm tâl. Nid yw'n cynnwys arian sy'n dod i law sydd uwchlaw'r isafswm tâl; pe bai'r gwerthwr yn codi 8c am fag a 5c fyddai'r isafswm tâl yna'r enillion net o'r tâl fyddai 5c.

224. Rhaid i'r enillion net gael eu cymhwyso at "dibenion elusennol", a diffinnir yn is-adran (8) bod i "ddiben elusennol" yr ystyr a roddir i "charitable purpose" yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 (p.25). Disgrifir y dibenion hynny yn adran 3 o'r Ddeddf honno ac maent yn cynnwys hybu'r gwaith o ddiogelu neu wella'r amgylchedd.

225. O dan is-adran (8) caiff rheoliadau addasu'r diffiniad o "diben elusennol" pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus gwneud hynny er mwyn sicrhau bod yr enillion net o'r tâl yn cael eu defnyddio'n briodol. Gallai'r p#er hwn gael ei arfer, er enghraifft, pe bai'r diffiniad yn adran 2 o'r Ddeddf Elusennau wedi ei ddiwygio ac nad ystyrir bod y diffiniad newydd yn briodol bellach at ddiben y rheoliadau.

226. Pan fo gan werthwyr drefniadau presennol cyn i'r rheoliadau ddod i rym a'u bod yn rhoi arian y maent yn ei gael am fagiau siopa yn wirfoddol at ddibenion elusennol nad ydynt yn dod o fewn is-adran (1), mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau gynnwys eithriad sy'n eu galluogi i roi'r enillion net o'r tâl at y dibenion hynny. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o dan is-adrannau (2) a (3).

227. O dan is-adran (2)(a), rhaid i'r rheoliadau bennu o fewn pa gyfnod y mae'n ofynnol bod y gwerthwr wedi rhoi taliadau at ddibenion elusennol eraill. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ddarparu nad yw'r eithriad yn gymwys onid yw'r gwerthwr wedi gwneud taliad yn ystod y flwyddyn cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

228. O dan is-adran (2)(b), rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi hysbysiad eu bod yn dymuno parhau â'r trefniadau hyn er mwyn dibynnu ar yr eithriad. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff rheoliadau gynnwys manylion ynghylch sut y cymhwysir yr eithriad, fel sut y mae'n rhaid rhoi hysbysiad, yr wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddo, ac unrhyw amodau.

229. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau o dan is-adran (1) roi disgresiwn i'r gwerthwr i ddewis y diben elusennol, neu bennu un diben elusennol neu ragor (ond rhaid iddo fod yn ddiben elusennol sy'n dod o fewn is-adran (1)).

230. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer cymhwyso'r enillion net a'r person a gaiff dderbyn yr enillion hynny ar ran yr elusen. O dan is-adran (6), caiff y rheoliadau roi'r pwerau i Weinidogion Cymru orfodi'r rheoliadau os yw'r gwerthwr yn methu â chymhwyso'r enillion net yn ôl y gofyn.

### *Adran 58 - Gweinyddu*

231. Mae adran 58 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy a gaiff fod yn gyfrifol am weinyddu'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Mae'r adran hon yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa benodi unrhyw berson i fod yn weinyddwr ac y caiff roi pwerau i'r person hwnnw, a gosod dyletswyddau arno, at ddiben gweinyddu'r drefn. O dan Reoliadau 2010, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw'r gweinyddwyr ar gyfer eu hardaloedd.

232. Er mwyn rhoi pwerau i'r gweinyddwr, a gosod dyletswyddau arno, o dan is-adran (3), mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ddiwygio deddfiadau sy'n gymwys i'r gweinyddwr (megis deddfiadau ynghylch pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol). Diffinnir "deddfiad" yn adran 87. Caniateir rhoi swyddogaethau gorfodi i'r gweinyddwr o dan adran 60.

### *Adran 59 – Cadw a chyhoeddi cofnodion*

233. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cofnodion y mae'n rhaid eu cadw a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn perthynas â'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Caniateir i'r adran hon fod yn gymwys i unrhyw berson ond mae'r rheoliadau'n fwyaf tebygol o osod dyletswyddau ar y gwerthwyr ac unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol.

234. Ar hyn o bryd mae rheoliad 8(3) o Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gadw gwybodaeth am nifer y bagiau siopau untro a gyflenwyd, y swm a gafwyd ar ffurf y tâl ac at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net o'r tâl.

235. Mae is-adran (2)(b) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am daliadau bagiau siopa gael ei chyhoeddi neu ei darparu i unrhyw un neu ragor o'r personau a nodir ym mharagraffau (i) i (iii). Y personau hynny yw Gweinidogion Cymru, unrhyw weinyddwr a benodir o dan adran 58 neu aelodau o'r cyhoedd.

236. Mae is-adran (3) yn darparu enghreifftiau o gofnodion neu wybodaeth a gaiff fod yn ofynnol o dan y rheoliadau. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i werthwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch faint o fagiau y maent wedi eu gwerthu o fewn cyfnod penodol a swm y taliadau a ddaeth i law. Gallent hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr roi dadansoddiad o sut y maent wedi cyfrifo'r enillion net o'r tâl fel y'i diffinnir yn adran 63 a sut y defnyddiwyd yr enillion hynny.

237. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl bagiau siopa gan werthwr nwyddau gyhoeddi neu ddarparu cofnodion neu wybodaeth am yr arian y maent wedi ei dderbyn.

### *Adran 60 - Gorfodi*

238. Mae adran 60 yn galluogi rheoliadau bagiau siopa i wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r drefn bagiau siopa i gael ei gorfodi. Caiff y rheoliadau roi swyddogaethau amrywiol i weinyddwyr a benodir o dan adran 58. Caiff y rheoliadau roi'r p#er i'r gweinyddwr ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth a dogfennau a holi'r gwerthwyr neu eu cyflogeion, ond dim ond os yw'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â'r rheoliadau.

### *Adran 61 – Sancsiynau sifil*

239. Mae adran 61 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y sancsiynau sifil y gellir eu gosod ar unrhyw berson nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau bagiau siopa.

### *Adran 62 – Rheoliadau o dan y Rhan hon*

240. Mae adran 62 yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau bagiau siopa gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac na chaniateir eu gwneud hyd nes y bydd drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

241. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaethau yn y rheoliadau bagiau siopa sy'n ymwneud ag unrhyw faterion cysylltiedig, ac i gymhwyso'r rheoliadau mewn gwahanol ffyrdd, drwy gymhwyso isafswm tâl gwahanol i wahanol fathau o fagiau er enghraifft.

### *Adran 64 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau*

242. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

## Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff

243. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ymwneud â chasglu a gwaredu gwastraff, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer ei gwneud yn ofynnol gwahanu gwastraff yn y tarddle a'i gasglu ar wahân, gwahardd llosgi gwastraff a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd o fangreoedd annomestig i garthffosydd. Diben y darpariaethau yw hybu rhagor o wahanu ar wahanol fathau o wastraff, a gwahardd dulliau penodol o waredu mathau adferadwy o wastraff.

### *Adran 65 – Gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff*

244. Mae adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru drefnu i gasglu gwastraff aelwydydd sy'n cael ei gynhyrchu yn eu hardaloedd, yn ogystal â gwastraff masnachol, pan wneir cais am hynny. Mae'r awdurdod lleol naill ai'n cyflawni'r swyddogaeth hon gan ddefnyddio'i adnoddau ei hun, neu'n trefnu bod contractwr preifat yn cyflawni'r swyddogaeth ar ei ran. Caiff gwastraff masnachol a diwydiannol nad yw'n dod o fewn dyletswyddau'r awdurdod lleol yn adran 45 ei gasglu gan gontractwyr preifat drwy gontract unigol â'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at wastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol, gyda'i gilydd, fel "gwastraff a reolir"[2].

245. Yn ychwanegol at ofynion adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i gasglwyr gwastraff gydymffurfio â gofynion rheoliadau 13 a 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 [O.S. 2011/988], sy'n trosi'n rhannol Gyfarwyddeb yr UE 2008/98/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff). Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gasglwyr gwastraff, o 1 Ionawr 2015 ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau

---

**2** [2] *Diffinnir y termau gwastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol a gwastraff a reolir ("household, commercial, industrial and controlled") yn adran 75 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.*

penodol, gasglu papur, metel, plastig a gwydr ar wahân, o leiaf, a chadw'r deunyddiau hynny ar wahân ar ôl eu casglu.

246. A hyn yn y cefndir, mae adran 65 yn mewnosod adran 45AA newydd ("Wales: separate collection etc. of waste") yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Diben y darpariaethau yn yr adran newydd yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gwahanol fathau o wastraff sydd i'w casglu ar wahân, a phennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod rhagor o wahanol fathau o wastraff yn cael eu gwahanu.

247. Yn adran 45AA, mae is-adrannau (1) a (2) yn ymwneud â chasglu gwahanol ddeunyddiau gwastraff ar wahân. Mae is-adran (1) yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n arfer eu swyddogaethau o dan adran 45, i wneud trefniadau ar gyfer casglu gwastraff a reolir yn eu hardal, er enghraifft, gyda chontractwr preifat. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwastraff yn cael ei gasglu o dan y trefniant mewn modd sy'n gyson â'r gofynion gwahanu perthnasol.

248. Mae is-adran (6) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru bennu gofynion o ran gwahanu mewn rheoliadau, ac mae is-adran (7) yn rhoi p#er cysylltiedig i bennu'r amgylchiadau pan fo gofynion o'r fath yn gymwys. Diffinnir natur y gofynion o ran gwahanu yn is-adran (6). Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau pa ddeunyddiau y dylid eu cyflwyno a'u casglu ar wahân, a sut y dylid cadw'r gwahanol fathau o wastraff ar wahân i'w gilydd ar ôl eu casglu. Gallai hyn gynnwys pennu lefel wahanu ar gyfer gwahanol ddeunyddiau gwastraff a all fod yn ofynnol o dan wahanol amgylchiadau.

249. Mae is-adran (2) yn cymhwyso dyletswydd gyfatebol i'r rheini sy'n casglu, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir mewn gwirionedd. Bwriedir i'r ddyletswydd i ymddwyn yn unol â gofynion gwahanu perthnasol fod yn gymwys yn ystod pob cam o'r gadwyn wastraff, o gynhyrchu'r gwastraff, i'w drin neu ei waredu'n derfynol. Bydd yn effeithio ar y rheini sy'n casglu, yn derbyn neu'n storio gwastraff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ogystal â'r cludwyr hynny sy'n cludo gwastraff, ac ailbroseswyr, fel ailgylchwyr, sy'n trin gwastraff. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i unigolion nad ydynt yn gweithredu yng nghwrs busnes. Diffinnir "acting in the course of a business" ("gweithredu yng nghwrs busnes") yn is-adran (3).

250. Mae is-adran (10)(a) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y ddyletswydd yn is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i eithriadau. Bydd y p#er hwn, ar y cyd â'r p#er cyffredinol yn is-adran (11) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddibenion, achosion neu ardaloedd, yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau pan fydd y darpariaethau hyn yn gymwys.

251. Mae is-adran (4) yn ategu'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2), drwy osod dyletswydd i weithredu'n unol â gofynion gwahanu cymwys ar gategorïau penodol o gynhyrchwyr gwastraff, wrth gyflwyno gwastraff ar gyfer ei gasglu. Golyga'r ddarpariaeth hon ei bod yn ofynnol i feddianwyr mangreoedd, ac eithrio aelwydydd, gyflwyno gwastraff a reolir ar gyfer ei gasglu yn unol â gofynion gwahanu cymwys. Caiff gofynion o'r fath gynnwys, er enghraifft, bennu'r mathau o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu y mae'n rhaid eu cyflwyno ar wahân ar gyfer eu casglu.

252. Mae is-adran (5) yn cynnwys eithriadau i'r ddyletswydd yn is-adran (4). Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys i feddianwyr aelwydydd domestig na charafanau. Mae is-adran (10)(b) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud is-adran (4) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (5). Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r modd y cymhwysir y ddyletswydd yn is-adran (4) i newidiadau i'r polisi casglu gwastraff sy'n digwydd yn y dyfodol.

253. Mae is-adran (8) yn golygu bod methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (2) neu (4), heb esgus rhesymol, yn drosedd. Yn ôl is-adran (9), mae troseddau o'r fath yn droseddau neillffordd y gellir eu gwrando yn ddiannod yn Llys yr Ynadon neu ar

dditiad yn Llys y Goron. Dirwy yw'r gosb yn dilyn collfarn. Nid oes terfyn ar swm y ddirwy y gellir ei gosod.

254. Mae is-adran (11) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan yr adran hon, wneud gofynion gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol, neu gymhwyso gofynion yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Oherwydd ei natur caiff y p#er hwn ei arfer ar y cyd ag arfer pwerau eraill o dan yr adran hon.

255. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 45AB (Code of practice) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru ddyroddi, diwygio neu ddirymu cod ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn adran 45AA. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, cyn dyroddi cod. Gallai hyn gynnwys CNC ac awdurdodau lleol Cymru, er enghraifft, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r cod, neu unrhyw ddiwygiad i god presennol, a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

256. Ni fyddai cod ymarfer o'r fath yn rhwymo person sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adran 45AA yn uniongyrchol. Ond mae is-adran (5) yn golygu bod y cod ymarfer yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achos llys, megis pan fo llys yn ystyried a gyflawnwyd trosedd o dan adran 45AA(8) ai peidio. Rhaid i'r llys ystyried y cod o ran unrhyw gwestiynau y mae'n berthnasol iddynt.

### *Adran 66 – Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos*

257. Mae adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswydd gofal eang ar unrhyw berson sy'n mewnforio, yn cynhyrchu, yn cario, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir, neu sydd â rheolaeth dros wastraff o'r fath, fel deliwr neu frocer, i fabwysiadu pob mesur rhesymol i atal, ymysg pethau eraill, unrhyw achos anghyfreithlon o waredu gwastraff gan berson arall, neu unrhyw achos o fynd yn groes i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

258. Mae adran 66 yn mewnosod adran 34D yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus o fangreoedd annomestig yng Nghymru, yn is-adran (1). O dan y gwaharddiad, ni ddylai'r sawl sy'n meddiannu unrhyw fangre annomestig waredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus nac i unrhyw ddraen sy'n gollwng i garthffos gyhoeddus. Mae mangreoedd annomestig yn cynnwys mangreoedd busnes a'r sector cyhoeddus, ond nid ydynt yn cynnwys tai preifat, er enghraifft. Mae gweithredu is-adran (1) yn ddarostyngedig i b#er Gweinidogion Cymru, yn is-adran (6)(a), i bennu'r amgylchiadau pan fo is-adran (1) yn gymwys mewn rheoliadau. Mae'r p#er hwn, ar y cyd â'r p#er cyffredinol i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol yn is-adran (7), yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o fangreoedd ac amgylchiadau pan fydd y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd yn gymwys.

259. Mae is-adran (2) yn amlinellu eithriadau i'r gwaharddiad yn is-adran (1). Mae meddianwyr mangreoedd domestig a charafanau wedi'u heithrio. Mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i b#er Gweinidogion Cymru yn is-adran (6)(b), ar y cyd â'r p#er yn is-adran (7), i wneud rheoliadau sy'n darparu bod is-adran (1) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (2). Fel yn achos y p#er yn is-adran (6)(a), bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried y modd y mae amgylchiadau a pholisi'r llywodraeth yn newid.

260. Diffinnir gwastraff bwyd yn is-adran (5). Mae is-adran (6)(c) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o wastraff bwyd.

261. Mae is-adran (3) o adran 34D yn darparu y bydd methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn is-adran (1) heb esgus rhesymol yn drosedd, ac yn rhinwedd is-adran (4), gellir gwrando trosedd o'r fath yn ddiannod yn Llys yr Ynadon neu ar dditiad yn

Llys y Goron. Os bydd y person sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei gollfarnu, bydd yn atebol i dalu dirwy ddiderfyn.

262. Mae adran 66(2) o'r Ddeddf yn gwneud diwygiad canlyniadol sy'n egluro nad yw cydsyniad elifion masnach a ddyroddir i feddiannydd gan yr ymgymerwyr carthffosiaeth o dan Ddeddf y Diwydiant D#r 1991 yn drech na'r gwaharddiad yn adran 34D ar waredu gwastraff bwyd i garthffos. Mae'n sicrhau y gall unrhyw beth sydd wedi ei eithrio o'r gwaharddiad yn adran 34D gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael ei reoleiddio gan y drefn elifion masnach.

## *Adran 67 – P#er i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi*

263. Mae adran 9 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio mewn ffordd arall, waredu mathau penodol o wastraff drwy dirlenwi. Dargyfeirio gwastraff adferadwy rhag cael ei waredu yw'r diben, a chynyddu ailgylchu yng Nghymru. Mae adran 67 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 9A newydd yn y Mesur, sy'n cynnwys darpariaethau tebyg i'r rheini ar gyfer tirlenwi, ond sy'n ymwneud â gwahardd neu reoleiddio llosgi mathau penodol o wastraff.

264. Mae is-adran (1) o'r adran 9A newydd yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu fel arall yn rheoleiddio llosgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru. Gellid defnyddio p#er o'r fath i bennu mathau penodol o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu, ac na ddylid eu llosgi, er enghraifft.

265. Mae is-adran (2) yn disgrifio mathau penodol o ddarpariaeth y gellir eu cynnwys mewn rheoliadau o dan is-adran (1). Mae hyn yn cynnwys p#er i greu troseddau, i ragnodi cosbau ac i ddarparu ar gyfer awdurdodau gorfodi. Mae is-adran (2) hefyd yn cynnwys p#er i ddiwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, a fyddai'n cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, sy'n rheoleiddio trwyddedu a gweithredu cyfleusterau llosgi, ymysg pethau eraill.

266. Mae is-adran (3) yn diffinio llosgi at ddibenion adran 9A, ynghyd â "peiriant llosgi gwastraff", a "peiriant cydlosgi gwastraff". Felly mae'r p#er yn is-adran (1) yn gymwys i beiriannau gan gynnwys y rheini sydd â'r prif ddiben o losgi gwastraff (llosgyddion gwastraff, er enghraifft) a'r rheini sy'n llosgi gwastraff i ddarparu ynni i bweru proses.

## *Adran 68 – Sancsiynau sifil*

267. Mae is-adran (1) o adran 68 yn darparu bod y drefn o sancsiynau sifil a rheolaethau o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ar gael mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan adrannau 34D a 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a fewnosodir gan adrannau 65 a 66. Gellir defnyddio'r sancsiynau hynny fel dull arall yn hytrach nag erlyn troseddau, os yw'r rheoleiddiwr yn fodlon bod trosedd wedi'i chyflawni.

268. Mae is-adrannau (2) i (8) yn diwygio adran 10 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, er mwyn dod â throseddau a gyflawnir o dan ddarpariaethau'r adran 9A newydd, yn ymwneud â llosgi, o dan y drefn sancsiynau sifil sydd eisoes yn ei lle yn y Mesur.

## *Adran 69 - Rheoliadau*

269. Mae adran 69 yn diwygio adran 161 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn perthynas â rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan yr adrannau 45AA a 34D newydd o'r Ddeddf honno. Yn benodol, mae is-adran (4) yn mewnosod is-adran (2AA) newydd yn adran 161, sy'n darparu bod rheoliadau o dan yr adrannau newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r diwygiadau i adran 161 hefyd yn diweddaru'r derminoleg drwy roi cyfeiriadau at Weinidogion

Cymru yn lle'r cyfeiriadau at is-ddeddfwriaeth a oedd yn cael ei gwneud gan yr hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

270. Mae adran 69 hefyd yn diwygio adran 20 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 er mwyn darparu bod rheoliadau o dan yr adran 9A newydd o'r Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

### *Adran 70 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau*

271. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Rhan hon o'r Ddeddf. Ceir manylion y diwygiadau yn Rhan 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

## Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

272. Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adrannau 1 a 3 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("Deddf 1967") ac yn cyflwyno adrannau 5A i 5F newydd iddi. Prif bwrpas y newidiadau hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y ddarpariaeth angenrheidiol a chymryd y camau angenrheidiol mewn perthynas â gorchmynion pysgodfeydd cregyn, a roddir o dan adran 1 o Ddeddf 1967, at ddibenion gwarchod safleoedd morol Ewropeaidd ac atal niwed iddynt. Diffinnir safleoedd morol Ewropeaidd ("European marine sites") gan yr adran 5F(2) newydd o Ddeddf 1967 (fel y'i mewnosodir gan adran 50 o'r Ddeddf hon) drwy gyfeirio at reoliad 8 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Adar Gwyllt 79/409/EEC).

### *Adran 71 – Ceisiadau am orchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd*

273. Mae adran 1 o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n rhoi hawl pysgodfa unigol neu hawl i reoleiddio pysgodfa. Mae gorchymyn pysgodfa unigol yn rhoi perchnogaeth o bysgod cregyn penodedig i'r person (a elwir yn grantî) y rhoddir y bysgodfa iddo. Mae gorchymyn rheoleiddio yn galluogi person i reoli gweithgarwch pysgota (ar gyfer pysgod cregyn penodedig) o fewn ardal benodedig, yn aml drwy roi trwyddedau pysgota i eraill.

274. Mae adran 1(2) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn offeryn statudol, ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn pysgodfa gregyn unigol neu orchymyn rheoleiddio. Mae adran 71 o'r Ddeddf yn diwygio adran 1 o Ddeddf 1967 fel na fydd yn angenrheidiol mwyach gwneud offeryn statudol at y dibenion hyn. Bydd is-adran 1(2A) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn pysgodfa gregyn, heb fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth at y diben hwnnw.

275. Mae adran 71 o'r Ddeddf hefyd yn mewnosod adran 1(2B) newydd i Ddeddf 1967 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gwneud cais am orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1967 ddarparu unrhyw wybodaeth (a allai gynnwys gwybodaeth amgylcheddol) sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn ystyried cais o'r fath.

276. Bydd y diwygiadau hyn i adran 1 o Ddeddf 1967 yn gymwys i unrhyw gais a wneir ar ôl i adran 71 o'r Ddeddf hon ddod i rym. Bydd unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu prosesu yn unol â geiriad blaenorol adran 1(2) o Ddeddf 1967.

### *Adran 72 – Gofyniad i gynnwys darpariaethau amgylcheddol mewn gorchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd*

277. Mae adran 72 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 5A newydd i Ddeddf 1967 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gorchymyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yr ystyrir eu bod yn briodol er mwyn atal niwed i unrhyw safle morol Ewropeaidd neu i warchod yr amgylchedd morol fel arall. Diffinnir amgylchedd morol ("marine environment") gan yr adran 5A(2) newydd. Darperir diffiniadau o safle morol Ewropeaidd ("European marine site") a niwed ("harm") at y dibenion hyn yn adran 5F(1) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf.

278. Ni fydd darpariaethau'r adran 5A newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgodfa gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

### *Adran 73 – P#er i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer diogelu safleoedd morol Ewropeaidd*

279. Mae adran 73 o'r Ddeddf yn mewnosod adrannau 5B, 5C a 5D newydd i Ddeddf 1967. Mae'r adrannau newydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad gwarchod safle ac ymdrin â materion cysylltiedig.

280. Er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau priodol i atal niwed ("harm") (fel y'i diffinnir gan adran 5F(2) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf) i safle morol Ewropeaidd o ganlyniad i weithredu pysgodfa gregyn unigol neu un wedi ei rheoleiddio, mae adran 5B(1) yn darparu p#er newydd i Weinidogion Cymru roi hysbysiad gwarchod safle i grantî y bysgodfa gregyn berthnasol o dan yr amgylchiadau a bennir.

281. Mae adran 5B(2) a (3) yn pennu'r gofynion y caniateir eu cynnwys mewn hysbysiad gwarchod safle. Mewn rhai achosion gallai hysbysiad gwarchod safle nodi'r gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o'r gwaith o reoli'r bysgodfa a allai niweidio safle morol Ewropeaidd (neu ddod yn niweidiol iddo), a phennu wedi hynny pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd neu pa gamau y mae'n rhaid eu hosgoi er mwyn rhwystro'r niwed hwnnw rhag digwydd. Gall hysbysiad gwarchod safle gynnwys gofyniad i gymryd camau yn ogystal â gofyniad i ymatal rhag cymryd camau penodol.

282. Mae adran 5B(4) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr hysbysiad gwarchod safle (a gaiff gynnwys darpariaeth y mae'n ofynnol i'r grantî gydymffurfio â hi y tu hwnt i gyfnod y bysgodfa unigol neu'r bysgodfa reoleiddio, gweler adran 5B(8) o Ddeddf 1967).

283. Mae adran 5B(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r grantî perthnasol cyn rhoi hysbysiad gwarchod safle oni bai eu bod o'r farn bod angen cymryd camau brys er mwyn atal niwed, ac mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob hysbysiad yn y fath fodd fel ei fod yn cael ei ddwyn i sylw pawb y mae'r hysbysiad yn debygol o effeithio arno.

284. Mae adran 5B(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu ddileu Hysbysiad Gwarchod Safle.

285. Mae adran 5B(9) yn darparu bod y pwerau gorfodi a nodir yn adran 5(2) i (7) o Ddeddf 1967 (sy'n cynnwys pwerau i wneud ymholiadau ac arolygu ac i gael mynediad i dir penodol at y dibenion hynny etc.) ar gael at ddibenion yr adran 5B newydd (hynny yw y p#er i roi hysbysiad gwarchod safle).

286. Mae is-adran 5C (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 73 o'r Ddeddf) yn darparu dull apelio mewn perthynas â hysbysiadau gwarchod safle. Gellir cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r adran hon yn pennu'r penderfyniadau hynny y caniateir

apelio yn eu herbyn a'r personau hynny a gaiff wneud apêl o'r fath neu fod yn barti i apêl o'r fath.

287. Mae adran 5C(4) yn galluogi'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i atal neu addasu hysbysiad gwarchod safle tra bo'r apêl yn mynd rhagddo ac mae is-adran (5) yn galluogi'r Tribiwnlys i gadarnhau, i amrywio neu i ddileu'r hysbysiad perthnasol. Mae is-adran (6) yn galluogi'r Tribiwnlys i orchymyn Gweinidogion Cymru, pan fo'r Tribiwnlys yn amrywio neu'n dileu hysbysiad, i ddigolledu unrhyw barti i'r apêl sydd wedi dioddef colled neu niwed o ganlyniad i'r hysbysiad perthnasol.

288. Os yw grantî y cyflwynwyd hysbysiad iddo yn methu â chydymffurfio â'i delerau, mae adran 5D (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 73 o'r Ddeddf) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd y camau angenrheidiol eu hunain ac adennill unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r camau hynny gan y grantî.

289. Ni fydd darpariaethau'r adrannau 5B, 5C a 5D newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgod cregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

### *Adran 74 – P#er i amrywio neu ddirymu gorchmynion i ddiogelu safleoedd morol Ewropeaidd*

290. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn cyflwyno adran 5E newydd i Ddeddf 1967. Mae adran 5E(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu gorchymyn pysgodfa unigol neu orchymyn rheoleiddio, o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 5E(1) yn darparu nad yw'r p#er yn is-adran (2) ar gael oni fo Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad gwarchod safle, nad yw wedi cael ei ddileu (gan Weinidogion Cymru neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf) ac nad oes apêl yn yr arfaeth mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw (ceir disgrifiad pellach o ystyr apêl sydd yn yr arfaeth ("pending appeal") yn adran 5E(4)). Unwaith y bo'r amodau hynny wedi eu bodloni, mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu'r gorchymyn pysgodfa unigol neu'r gorchymyn rheoleiddio perthnasol er mwyn adlewyrchu effaith yr hysbysiad gwarchod safle. Mae is-adran (3) yn nodi'r gofynion ymgynghori perthnasol.

291. Ni fydd darpariaethau adran 5E yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgodfa gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

### *Adran 75 – Darpariaeth atodol*

292. Mae adran 75 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 5F yn Neddf 1967 sy'n diffinio termau amrywiol sy'n berthnasol i adrannau 5A i 5E a fewnosodir yn Neddf 1967 gan y Ddeddf hon, ac yn nodi i ba orchmynion pysgodfeydd y mae'r adrannau hynny yn gymwys.

## Rhan 6 – Trwyddedu morol

293. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009). Mae Rhan 4 o Ddeddf 2009 yn sefydlu trefn trwyddedu morol. Mae adran 65 o Ddeddf 2009 yn darparu na ellir cyflawni gweithgareddau morol y mae angen trwydded ar eu cyfer, ac eithrio yn unol â thrwydded forol a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae adran 113(4) o'r Ddeddf honno'n diffinio'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru. Gweler adran 322 o Ddeddf 2009 i gael y diffiniad o ranbarth glannau Cymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru, ac eithrio fel y darperir gan adran 113(4)(a) o Ddeddf 2009. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau sy'n gymwys os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol.

294. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2009 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys y p#er i roi, i amrywio, i atal dros dro neu i ddirymu trwydded forol yn unol ag adrannau 71 a 72 o Ddeddf 2009. Bydd Rhan 6 o'r Ddeddf yn ategu'r pwerau codi tâl presennol sydd yn adran 67 o Ddeddf 2009 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru, os mai hwy yw'r awdurdod trwyddedu priodol, i godi ffioedd am amrywiaeth eang o geisiadau a gweithgareddau a gyflawnir ganddynt.

### *Adran 76 – Cyngor a chymorth mewn perthynas â thrwyddedu morol*

295. Mae adran 76 yn mewnosod adran 67A yn Neddf 2009, sy'n galluogi'r awdurdod trwyddedu i ddarparu cyngor neu gymorth arall ac i adennill costau rhesymol am wneud hynny. Un enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r p#er hwn yw darparu ac adennill costau yn ymwneud â rhoi cyngor a chymorth cyn gwneud cais.

### *Adran 77 – Ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol*

296. Mae adran 77 yn mewnosod adran 72A yn Neddf 2009. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, i godi ffioedd am fonitro gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded forol ac i godi ffioedd am geisiadau i amrywio, i drosglwyddo, i atal dros dro neu i ddirymu trwydded forol. Caiff Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol, godi ffioedd hefyd at gostau rhesymol yr ymchwiliadau, yr arolygiadau neu'r profion sy'n angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn penderfynu ar geisiadau penodol. Caiff Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu, wrthod bwrw ymlaen â chais os na chaiff ffioedd eu talu neu, ar gyfer ffioedd penodol, amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol drwy hysbysiad.

### *Adran 78 – Darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd*

297. Mae adran 78 yn mewnosod adrannau 107A a 107B yn Neddf 2009, sy'n darparu ar gyfer trefniadau ymarferol penodol sy'n ymwneud â thalu ffioedd. Mae hyn yn cynnwys galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, i godi blaendaliadau, i'w gwneud yn ofynnol talu ymlaen llaw ac i hepgor neu ostwng ffioedd. Mae gan Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, bwerau tebyg o ran peidio â thalu blaendaliadau ag ar gyfer peidio â thalu ffioedd o dan adran 77.

### *Adran 79 – Apelio yn erbyn amrywio etc drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal*

298. Mae adran 79 yn diwygio adran 108 o Ddeddf 2009 (Apelau yn erbyn hysbysiadau) i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, fel y gall personau apelio yn erbyn hysbysiad a roddwyd am beidio â thalu ffi neu flaendal.

### *Adran 80 – Eithriadau rhag p#er i ddirprwyo swyddogaethau awdurdod trwyddedu*

299. Mae adran 80 yn diwygio adran 98(6) o Ddeddf 2009. Mae adran 98(1) o Ddeddf 2009 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaethau penodol awdurdod trwyddedu i berson arall. Mae adran 98(6) o Ddeddf 2009 yn rhestru'r swyddogaethau sydd wedi'u heithrio ac na ellir eu dirprwyo. Mae adran 80 o'r Ddeddf yn diwygio'r rhestr honno drwy ychwanegu'r swyddogaethau o wneud rheoliadau sy'n ymwneud â ffioedd a blaendaliadau, a roddwyd gan adrannau 77 a 78 o'r Ddeddf. O ganlyniad, ni ellir dirprwyo'r swyddogaethau hynny o wneud rheoliadau yn unol ag adran 98(1) o Ddeddf 2009.

## Rhan 7 – Amrywiol

### *Adran 81– Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol*

300. Mae adran 81 o’r Ddeddf yn mewnosod adrannau 26B - 26D i Ddeddf Rheoli Llifogydd a D#r 2010. Bydd yr adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu pwyllgor i ddarparu cyngor iddynt ar faterion yn ymwneud â rheoli’r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu’r Flood and Coastal Erosion Committee fydd enw’r pwyllgor.

301. Corff cynghori fydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a’i gylch gwaith fydd darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â rheoli’r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru e.e. llifogydd o dd#r wyneb, prif afonydd, cyrsiau d#r arferol, llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol.

302. Mae adrannau 26C a 26D yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau, drwy reoliadau, yngl#n ag aelodaeth a thrafodion y pwyllgor a thaliadau i aelodau a’r cadeirydd.

303. Mae’r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn disodli Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, sef y pwyllgor llifogydd ac arfordirol rhanbarthol yng Nghymru a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a D#r 2010. Mae adran 81(2) yn diddymu Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn ffurfiol.

### *Adrannau 82 i 85 – Draenio tir*

304. Mae adrannau 82 i 85 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion amrywiol sy’n ymwneud â draenio tir. Mae adrannau 82-84 yn ymwneud â byrddau draenio mewnol a’r modd y cânt eu cyllido. Sefydlir y byrddau hyn er mwyn arfer swyddogaethau sy’n gysylltiedig â draenio tir yn eu hardaloedd. Yn sgil newidiadau diweddar trosglwyddwyd holl swyddogaethau’r byrddau draenio mewnol yng Nghymru i CNC.

305. Mae adran 82 yn ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau mewn perthynas â byrddau draenio mewnol. Mae adran 83 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â’r ffordd y caiff tir anamaethyddol ei brisio er mwyn dosrannau costau draenio yng nghyd-destun ardrethi draenio. Mae adran 84 yn ymwneud ag apelau yn erbyn ardollau arbennig.

306. Mae adran 85 yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i sicrhau y cydymffurfir â gorchmynion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol mewn perthynas â glanhau ffosydd.

### *Adran 82 – Diddymu gofynion i gyhoeddi mewn papurau newydd lleol etc.*

307. Mae’r adran hon yn diddymu darpariaethau Deddf Draenio Tir 1991 sy’n pennu ar ba ffurf y mae’n rhaid cyhoeddi hysbysiadau sy’n ymwneud â byrddau draenio mewnol.

308. Mae’r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau gael eu cyhoeddi mewn un papur newydd lleol neu ragor. Mae’r hysbysiadau y mae’r gofynion yn gymwys iddynt yn ymdrin â materion megis addasu ardaloedd draenio mewnol a gwneud is-ddeddfau.

309. Ni fydd y newidiadau yn cael gwared ar y rhwymedigaeth i gyhoeddi hysbysiadau, ond byddant yn golygu na fydd yn ofynnol cyhoeddi mewn papur newydd lleol mwyach. Bydd hynny’n darparu ar gyfer trefniadau hysbysebu mwy hyblyg ac yn caniatáu i’r byrddau draenio mewnol ac CNC ddewis y dull mwyaf priodol o ddosbarthu hysbysiadau, gan gynnwys dulliau electronig.

### *Adran 83 – Prisio tir anamaethyddol er mwyn dosrannu costau draenio*

310. Caiff costau bwrdd draenio mewnol nad ydynt yn cael eu diwallu gan gyllid grant eu diwallu yn rhannol gan ardrethi draenio y mae meddianwyr tir amaethyddol yn yr ardal yn eu talu, ac yn rhannol gan ardollau arbennig a godir ar yr awdurdodau lleol perthnasol

(a rhaid iddynt hwy gynnwys yr ardollau yn eu cyllidebau Treth Gyngor). Pennir y gyfran o wariant bwrdd draenio mewnol a ddiwellir o'r ardrethi draenio a'r ardollau arbennig drwy gymharu cyfanswm gwerth y tir amaethyddol yn ei ardal â chyfanswm gwerth y tir anamaethyddol.

311. O ran tir amaethyddol, mae Pennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn nodi'r dull prisio y mae'n rhaid ei ddefnyddio at y dibenion hyn. O ran tir anamaethyddol, mae adran 37(5) yn darparu, os cafodd y tir ei gynnwys ar restr ardrethu neu restr brisio ym 1990, bod ei werth i'w gyfrifo drwy gyfeirio at y gwerth a nodir ar y rhestr honno.

312. Nid yw adran 37(5) yn gyfredol bellach, ac nid yw rhai o'r rhestrau y mae'n cyfeirio atynt ar gael erbyn hyn. Mae adran 83 o'r Ddeddf yn diwygio adran 37 er mwyn rhoi darpariaethau newydd ar gyfer Cymru mewn perthynas â phrisio tir anamaethyddol yn lle is-adran (5).

313. Maent yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n nodi trefniadau newydd ar gyfer pennu gwerth tir anamaethyddol a ddefnyddir i gyfrifo ardrethi draenio ac ardollau arbennig.

### *Adran 84 – P#er i wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig*

314. O ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau'r byrddau draenio mewnol yng Nghymru i CNC (ym mis Ebrill 2015), bydd CNC yn codi ardollau arbennig ar awdurdodau lleol er mwyn talu am ran o'r swyddogaethau hynny. Yn y gorffennol y byrddau draenio mewnol oedd yn codi'r ardollau hyn, ac aelodau a benodwyd gan awdurdodau lleol oedd mwyafrif aelodau'r bwrdd a oedd yn gosod yr ardoll.

315. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio adran 75 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu trefn ar gyfer apelau gan awdurdodau lleol os ydynt o'r farn bod ardoll CNC yn afresymol.

316. Byddai'r apêl yn mynd at Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardollau arbennig a godwyd gan CNC er mwyn talu costau yr aed iddynt wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â draenio tir.

### *Adran 85 – P#er mynediad: cydymffurfio â gorchymyn i lanhau ffosydd etc.*

317. Mae adran 85 o'r Ddeddf yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991, sy'n rhoi p#er mynediad i Weinidogion Cymru neu bersonau a awdurdodir ganddynt.

318. Mae adran 28 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn darparu y caiff y Tribiwnlys Tir Amaethyddol roi gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i berchennog neu feddiannwr tir (yr ymatebydd) wneud gwaith ar ei dir er mwyn gwella draeniad ar dir cymydog. Os yw'r ymatebydd yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn caiff Gweinidogion Cymru, neu gorff draenio a awdurdodir ganddynt, ddibynnu ar y p#er o dan adran 29 i gael mynediad i dir er mwyn gwneud y gwaith sy'n ofynnol gan y gorchymyn, a chânt adennill y gost o wneud hynny.

319. Mae adran 29(1A) yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru neu unrhyw berson a awdurdodir ganddynt i gael mynediad i unrhyw dir pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn gweld a gydymffurfiwyd â gorchymyn. Ni chaniateir arfer y p#er oni bai bod tri mis wedi mynd heibio ers dyddiad y gorchymyn (neu unrhyw gyfnod hirach a bennir yn y gorchymyn) ac os oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chydymffurfiwyd â'r gorchymyn.

320. Mae adran 29(3), (4) a (5) o Ddeddf 1991 yn gymwys mewn perthynas â'r p#er yn adran 29(1A). Mae adran 29(3) yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â phersonau eraill a chyfarpar ar y tir a gwarchod yn erbyn tresmaswyr; mae adran 29(4) yn darparu bod rhaid i'r person sy'n cael mynediad i'r tir roi dim llai na saith niwrnod o rybudd i'r

meddiannwr; ac mae adran 29(5) yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolledu os yw'r person sy'n arfer y p#er yn achosi i unrhyw un arall gael unrhyw anaf.

321. Effaith adran 85(2) yw cymhwyso adran 29(1A) i unrhyw orchmynion a wneir o dan adran 28, gan gynnwys y rhai hynny a wnaed cyn i'r ddarpariaeth hon ddod i rym.

322. Fel arfer, byddai'r p#er yn cael ei arfer pan fo'r person sy'n cael budd o orchymyn y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn cwyno i Lywodraeth Cymru fod ei dir yn parhau i ddioddef o ganlyniad i ddraeniad gwael am nad yw'r Ymatebydd wedi cydymffurfio â'r gorchymyn.

### *Adran 86 – Is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru*

323. Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn newid y gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau yng Nghymru ac yn galluogi gorfodi is-ddeddfau penodol drwy hysbysiadau cosbau penodedig. Mae'n gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdodau lleol a nifer o gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Diddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i CNC. Roedd hynny'n cael effaith o 1 Ebrill 2013. O ganlyniad, mae angen diwygio'r cyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn Neddf 2012 er mwyn cyfeirio at CNC. Nodir y diwygiadau hynny yn Rhan 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, a gyflwynir gan adran 86.

## Rhan 8 – Cyffredinol

324. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dehongli'r Ddeddf, dod â'r Ddeddf i rym a'i henw byr.

### *Adran 87 – Dehongli*

325. Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r termau allweddol y cyfeirir atynt yn y Ddeddf. Yn benodol, mae'r diffiniad o "Cymru" yr un fath â'r diffiniad o "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys y môr sy'n gyfagos i Gymru cyn belled â ffin tua'r môr y môr tiriogaethol – hynny yw mae'n ymestyn am ddeuddeg milltir forol. Nid yw'n cynnwys parth Cymru a ddiffinnir hefyd yn adran 158(1).

### *Adran 88 – Dod i rym*

326. Mae adran 88 yn darparu y bydd Rhan 8 o'r Ddeddf yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw rhai darpariaethau i rym ar ddiwedd y ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol), Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd), Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn), adran 83 (diddymu gofynion i gyhoeddi), adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig), adran 85 (p#er mynediad) ac adran 86 (is-ddeddfau).

327. Daw darpariaethau eraill yn y Ddeddf i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn dod â hwy i rym drwy orchymyn. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa), Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff), Rhan 6 (trwyddedu morol), ac adran 82 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol).

### *Atodlen 1 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa: Sancsiynau Sifil*

328. Cyflwynir yr Atodlen hon gan adran 61.

### Sancsiynau sifil

329. Mae paragraff 1 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth y gallai person sy'n torri'r rheoliadau fod yn agored i sancsiynau sifil. Mae is-baragraff (3) yn

darparu y caiff sancsiynau sifil fod ar ffurf cosbau ariannol penodedig (a ddiffinnir ym mharagraff 2(3)) a gofynion yn ôl disgresiwn (a ddiffinnir ym mharagraff 4(3)).

## Cosbau ariannol penodedig

330. Mae paragraff 2 yn darparu y caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r p#er i weinyddwr osod cosb ariannol benodedig nad yw'n fwy na £5,000 ar unrhyw berson sy'n torri'r rheoliadau. Dim ond mewn achosion pan fo'r gweinyddwr wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y rheoliadau wedi eu torri y caniateir rhoi hysbysiadau sy'n gosod cosbau ariannol penodedig.

## Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn

331. Mae paragraff 3 yn darparu, pan fo gan weinyddwyr y p#er i roi hysbysiadau cosbau ariannol penodedig, fod yn rhaid i'r rheoliadau nodi'r weithdrefn fel y'i nodir yn y paragraff hwn.

332. Mae is-baragraff (1)(a) yn darparu bod rhaid i weinyddwr roi 'hysbysiad o fwriad' yn gyntaf cyn y gall osod cosb. Rhaid i'r hysbysiad roi'r cyfle i'r person sy'n ei gael dalu'r gosb neu wneud sylwadau neu wrthwynebiadau o fewn cyfnod penodedig, na ddylai fod yn fwy na 28 o ddiwrnodau yn y ddau achos, i'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad (gweler is-baragraffau (2)(e) ac (f)). Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-baragraffau (2)(a) i (f).

333. O dan is-baragraff (1)(b) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb drwy wneud taliad a gaiff fod yn llai na swm y gosb neu'n gyfwerth ag ef. Byddai hynny'n caniatáu i'r gweinyddwr gynnig gostyngiad am dalu'n gynnar. Os gwneir taliad ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

334. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig yn erbyn y gosb. Ar ddiwedd y cyfnod penodedig mae'r gweinyddwr yn penderfynu, ar ôl ystyried y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau, a yw am osod y gosb ariannol benodedig ai peidio. Os yw'n parhau i fod o'r farn bod cosb yn ddyledus caiff roi "hysbysiad terfynol". Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth yn is-baragraffau (4)(a) i (f). Os yw'n penderfynu tynnu'r hysbysiad cosb yn ôl yna o dan baragraff 3(3) rhaid iddo egluro pam ei fod wedi penderfynu peidio â gosod y gosb.

335. Mae is-baragraff (5) yn nodi'r amgylchiadau hynny pan gaiff person y rhoddir hysbysiad iddo apelio yn erbyn hysbysiad terfynol (gweler paragraff 10 am y weithdrefn apelau).

## Gofynion yn ôl disgresiwn

336. Mae paragraff 4 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r p#er i weinyddwr osod, drwy hysbysiad, un gofyniad neu ragor ("gofynion yn ôl disgresiwn") ar berson. Diffinnir "gofynion yn ôl disgresiwn" yn is-baragraff (3) fel:

- talu cosb ariannol o swm y caiff y gweinyddwr benderfynu arno ("cosb ariannol amrywiadwy");
- cymryd y camau hynny y caiff gweinyddwr eu pennu o fewn y cyfnod hwnnw y caiff gweinyddwr ei bennu er mwyn sicrhau nad yw'r achos o beidio â chydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto ("gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol").

337. Mae is-baragraff (2) yn pennu safon y prawf y mae'r rhaid i'r gweinyddwyr ei gymhwyso wrth benderfynu a yw'r rheoliadau wedi eu torri. O dan is-baragraff (5) rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod terfyn yn cael ei osod ar gosbau ariannol amrywiadwy, sef uchafswm a bennir yn y rheoliadau, neu a benderfynir yn unol â hwy.

## Gofynion yn ôl disgresiwn: y weithdrefn

338. Mae paragraff 5 yn darparu ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid ei nodi mewn rheoliadau ac y mae'n rhaid i'r gweinyddwr ei dilyn wrth osod unrhyw ofyniad yn ôl disgresiwn. Rhaid i weinyddwr roi hysbysiad i'r person o'i fwriad i osod gofyniad yn ôl disgresiwn. Rhaid i'r hysbysiad nodi o fewn pa gyfnod y caiff person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynghylch y sancsiwn arfaethedig. Ni chaniateir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfnod o ddim llai na 28 o ddiwrnodau.

339. Mae is-baragraff (c) yn darparu bod rhaid i'r gweinyddwr, ar ôl diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, benderfynu a yw am osod, tynnu'n ôl neu addasu'r gofyniad yn ôl disgresiwn neu osod gofyniad yn ôl disgresiwn arall yn ei le.

340. Pan fo'n gosod gofyniad yn ôl disgresiwn rhaid i weinyddwr gyflwyno hysbysiad terfynol. Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (4), gan gynnwys y ffaith bod gan y person yr hawl i apelio yn erbyn y sancsiwn.

341. Mae is-baragraff (5) yn nodi ar ba sail y gellir apelio yn erbyn y gofyniad yn ôl disgresiwn, fan lleiaf.

## Gofynion yn ôl disgresiwn: gorfodi

342. Mae paragraff 6 yn darparu, pan nad yw person yn cydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol, y caiff y rheoliadau roi'r p#er i weinyddwr osod cosb ariannol. Nid yw cosbau am beidio â chydymffurfio ar gael mewn achosion pan fo person wedi methu â thalu cosb ariannol amrywiadwy. Mae is-baragraff (2) yn darparu y caiff y rheoliadau naill ai bennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio neu y caniateir penderfynu'r swm yn unol â'r rheoliadau. Ar y llaw arall, mae is-baragraff (3) yn darparu y caiff y rheoliadau bennu uchafswm y gosb y caiff gweinyddwr ei gosod neu'r uchafswm fel y'i penderfynir yn unol â'r rheoliadau. Mae is-baragraff (5) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau nodi ar ba seiliau y caniateir apelio yn erbyn cosb am beidio â chydymffurfio, a nodir y seiliau hyn yn (a) i (c).

## Cyfuniad o sancsiynau

343. Mae paragraff 7 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan gaiff rheoliadau bagiau siopa roi pwerau i weinyddwr osod y ddau fath o sancsiwn sifil (h.y. cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgresiwn) mewn perthynas â'r un math o doriad o'r rheoliadau. Yn benodol, os yw'r rheoliadau'n rhoi'r pwerau hynny, rhaid iddynt sicrhau na chaiff y gweinyddwr roi hysbysiad o fwriad i osod un math o gosb sifil ar berson os yw eisoes wedi gosod y math arall o gosb sifil ar y person am yr un toriad.

## Cosbau ariannol

344. Mae paragraff 8 yn darparu, pan fo'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil, y cânt hefyd wneud darpariaeth fel a nodir yn is-baragraff (a) i (c). Cânt gynnwys disgowntiau am dalu'n gynnar neu ddarpariaeth ar gyfer talu llog neu gosb ariannol arall am dalu'r gosb wreiddiol yn hwyr. Mae is-baragraff (1)(b) yn darparu na chaiff cyfanswm unrhyw gosb am dalu'n hwyr fod yn fwy na chyfanswm y gosb a osodwyd.

345. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ar gyfer gorfodi'r cosbau. Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1)(c) alluogi gweinyddwr i adennill cosb neu daliad arall y caniateir ei bennu yn y rheoliadau o dan is-baragraff (1)(b) fel dyled sifil drwy'r llysoedd sifil. Caiff y rheoliadau hefyd greu proses adennill symlach drwy drin y gosb fel petai'n daladwy o dan orchymyn llys.

## Adennill costau

346. Mae paragraff 9 yn darparu y caiff rheoliadau roi pwerau i'r gweinyddwr adennill costau, drwy hysbysiad, gan berson y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno. Mae is-

baragraff (2) yn darparu y caiff y costau gynnwys costau ymchwilio, costau gweinyddu a chostau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol). O dan is-baragraff (3) pan gyflwynir hysbysiad ynghylch costau gallai fod yn ofynnol i'r gweinyddwr roi dadansoddiad manwl o'r costau y mae'n ceisio eu hadennill, ac nid yw'r person y cyflwynir hysbysiad iddo yn atebol i dalu unrhyw gostau yr aed iddynt yn ddiangen.

347. Mae is-baragraff (4) yn darparu y caiff y ddarpariaeth ar gyfer talu costau'r gweinyddwr a wneir gan y rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer adennill llog a chosbau am dalu'n hwyr o dan baragraff 8. Mae is-baragraff 3(d) yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y gweinyddwr o ran talu costau.

## Apelau

348. Mae paragraff 10 yn cynnwys rhai darpariaethau gweithdrefnol ar gyfer apelau yn erbyn cosbau sifil. Mae'n darparu'n benodol bod rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod yr apelau i'w gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p.15)), neu dribiwnlys arall a grëir o dan ddeddfiad, wrando'r apêl. Mae rheoliad 21 o Reoliadau 2010 yn darparu bod apelau yn erbyn sancsiynau sifil i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

## Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil

349. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r p#er i weinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i berson y gosodwyd sancsiwn sifil arno. Byddai hysbysiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gosodwyd sancsiwn, yn ogystal â'r wybodaeth arall honno y caniateir ei phennu yn y rheoliadau, a thalu am hynny ei hun. Os yw'r person yn methu â chyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gofyn, caiff y rheoliadau ddarparu i'r gweinyddwr gyhoeddi'r hysbysiad ac adennill y costau oddi wrth y person y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

## Personau sy'n atebol i sancsiynau sifil

350. Mae paragraff 12 yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i swyddogion corff corfforaethol a phartneriaid o fewn partneriaeth fod yn atebol i sancsiynau sifil.

## Canllawiau ynghylch defnyddio pwerau i osod sancsiynau sifil ac adennill costau

351. Mae paragraff 13 yn darparu, pan fo gweinyddwr i gael y p#er i osod sancsiynau sifil, bod dyletswydd gyfatebol i fod ar y gweinyddwr i gyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynghylch sut y bydd yn defnyddio ei bwerau sancsiynau sifil, gan gynnwys manylion ynghylch cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgresiwn megis: pryd y maent yn debygol o gael eu gosod, sut y penderfynir ar gosbau penodedig ac amrywiadwy, sut y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd ac effaith rhyddhad ar hawliau i apelio.

## Cyhoeddi camau gorfodi

352. Mae paragraff 14 yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n darparu ar gyfer sancsiynau sifil sicrhau bod y gweinyddwr yn cyhoeddi adroddiadau ar y defnydd o sancsiynau sifil.

## Cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio

353. Mae paragraff 15 yn darparu na chaniateir i bwerau sancsiynau sifil gael eu rhoi i weinyddwr mewn rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd y gweinyddwr yn cydymffurfio â'r egwyddorion gwell rheoleiddio a nodir ym mharagraffau (a) a (b).

### Adolygu

354. Mae paragraff 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y mae'r darpariaethau sancsiynau sifil a nodir yn y rheoliadau yn gweithredu. Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl 1 Hydref 2017, a rhaid cynnal adolygiadau dilynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

### Atal dros dro

355. Mae paragraff 17 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru atal dros dro bwerau gweinyddwr i osod sancsiynau sifil o dan amgylchiadau penodol drwy roi cyfarwyddyd i'r gweinyddwr. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cyfarwyddydau o'r fath. Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gweinyddwr a'r personau eraill hynny sy'n briodol yn eu barn hwy. Rhaid i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u dwyn i sylw'r rheini y maent yn debygol o effeithio arnynt.

### Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru

356. Mae paragraff 18 yn darparu i arian a dderbynnir o gosbau fynd i Gronfa Gyfunol Cymru a sefydlwyd o dan adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. I'r gronfa hon y telir arian cyhoeddus a ddyrennir i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru gan Lywodraeth y DU ynghyd ag arian a dderbynnir o ffynonellau eraill.

### *Atodlen 2*

### Rhan 1: Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

357. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau a diddymiadau mewn perthynas â Rhan 1 o'r Ddeddf.

358. Mae paragraffau 1 i 5 yn gwneud nifer o ddiwygiadau o ganlyniad i adrannau 16 a 23 o'r Ddeddf. Mae diwygiadau yn cael eu gwneud i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949), Deddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, o ganlyniad i adran 16 o'r Ddeddf. Effaith y diwygiadau hyn yw tynnu ymaith b#er CNC i wneud cytundebau rheoli tir o dan y Deddfau hyn, gan fod y pwerau hynny yn cael eu disodli yn awr gan y p#er yn adran 16 o'r Ddeddf.

359. Mae paragraffau 1 i 5 o Atodlen 2 hefyd yn diwygio darpariaethau amrywiol sy'n cyfeirio at gytundebau a wneir o dan y pwerau blaenorol yn Neddf 1949, Deddf 1968 a Deddf 1981 fel eu bod yn cyfeirio yn lle hynny at gytundebau rheoli tir a wneir o dan adran 16 o'r Ddeddf.

360. Mae paragraff 2(2) yn diddymu adran 4 o Ddeddf 1968, er mwyn tynnu ymaith b#er CNC i gynnal prosiectau neu gynlluniau arbrofol. Darperir p#er ehangach i gynnal cynlluniau arbrofol erbyn hyn gan adran 23 o'r Ddeddf, sy'n rhoi adran newydd yn lle Adran 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

361. Mae paragraffau 6 i 9 yn diwygio nifer o Ddeddfau er mwyn cysylltu â darpariaethau perthnasol yn Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae paragraff 6 yn diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995 er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol ac unrhyw ddatganiad(au) ardal perthnasol wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu cynlluniau rheoli o dan adran 66 o'r Ddeddf honno.

362. Mae paragraff 7 yn diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn sicrhau bod rhaid i'r awdurdod lleol neu'r bwrdd cadwraeth perthnasol, wrth gyhoeddi,

mabwysiadu neu adolygu cynllun rheoli o dan adran 89 o'r Ddeddf honno, roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol ac unrhyw ddatganiad ardal sy'n berthnasol i'r ardal o harddwch naturiol eithriadol, fel y bo'n briodol.

363. Mae paragraff 8 yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, er mwyn sicrhau bod rhaid ystyried y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol wrth lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac, wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol, bod rhaid rhoi sylw i unrhyw ddatganiadau ardal sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol hwnnw.

364. Mae paragraff 9 yn diwygio'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i fioamrywiaeth, fel ei fod yn berthnasol yn unig i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mewn perthynas â chyrff cyhoeddus eraill pan fônt yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Lloegr. Bydd adran 6 o'r Ddeddf yn gymwys, yn lle hynny, pan fo awdurdodau cyhoeddus ac eithrio Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

365. Mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Darperir ar gyfer y gofyniad hwn bellach gan adran 7 o'r Ddeddf. Mae amryw o ddiwygiadau eraill yn cael eu gwneud i Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn is-baragraff (4).

366. Mae paragraff 10 yn mewnosod paragraff newydd i adran 36(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y paragraff newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wrth baratoi asesiad llesiant lleol, ystyried datganiad neu ddatganiadau ardal a gyhoeddir o dan adran 10 o'r Ddeddf hon, sy'n ymwneud ag unrhyw ran o ardal awdurdod lleol. Mae is-baragraff (2) yn diweddaru'r diffiniad o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn Neddf 2015.

367. Mae paragraff 11 yn diddymu paragraff 29 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio (Cymru). Roedd paragraff 29 yn diwygio'r diffiniad o awdurdod cyhoeddus yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn diddymu adran 40 o'r Ddeddf honno, o ran swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â Chymru, felly nid yw paragraff 29 yn cael unrhyw effaith.

## Rhan 2: Codi taliadau am fagiau siopa

368. Mae paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, sy'n cael yr effaith o ddatgymhwyso, mewn perthynas â Chymru, y darpariaethau ynghylch bagiau siopa untro yn Atodlen 6 o Ddeddf 2008.

## Rhan 3: Casglu a gwaredu gwastraff

369. Yn Rhan 3 o Atodlen 2, mae paragraff 14 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, o ganlyniad i fewnosod adran 45AA newydd. Effaith is-baragraff (2) yw gwneud adran 45A o'r Ddeddf honno yn gymwys i Loegr yn unig, ac mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 45B.

370. Mae paragraff 15 yn diddymu adran 2 o Ddeddf Ailgylchu Gwastraff Cartrefi 2003, a oedd yn mewnosod adran 45B i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

371. Mae paragraff 16 yn diddymu darpariaeth drosiannol yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud ag adran 45B o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

372. Mae paragraff 17 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, o ganlyniad i fewnosod adran 9A newydd o'r Mesur.

### Rhan 4: Pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol

373. Mae adran 82(3) a Rhan 4 o Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru deddfwriaeth sy'n cynnwys cyfeiriadau at Bwyllgorau Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'r ffaith bod Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (y pwyllgor llifogydd ac arfordirol rhanbarthol ar gyfer Cymru) wedi ei ddiddymu ac wedi'i ddisodli gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

### Rhan 5: Is-ddeddfau

374. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraffau 26 a 27 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r ddwy Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau CNC o ran gwneud is-ddeddfau.

375. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraff 28 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 er mwyn cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru a rhoi cyfeiriadau at CNC yn eu lle.

376. Mae is-baragraff 2 yn gwneud hynny yn yr adran sy'n diffinio pa gyrff sy'n awdurdodau deddfwriaethol ac sydd â'r p#er i wneud is-ddeddfau at ddibenion y Ddeddf. Mae is-baragraffau 3 a 4 yn gwneud hynny mewn adrannau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau a'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gwneud is-ddeddfau.

377. Mae is-baragraff 5 yn diddymu paragraff 11 o Atodlen 2 i'r Ddeddf mewn perthynas â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

378. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572

| *Cyfnod* | *Dyddiad* |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 1 Mai 2015 |
| Cyfnod 1 — Dadl | 20 Hydref 2015 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu — Ystyried y gwelliannau | 26 Tachwedd 2015 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn — Ystyried y gwelliannau | 26 Ionawr 2016 |
| Cyfnod 4 — Cymeradwywyd gan y Cynulliad | 2 Chwefror 2016 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 21 Mawrth 2016 |